**CYNGOR BRO MORGANNWG**

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd Susan Lloyd-Selby (Maer); Cynghorwyr Anne Asbrey, Julie Aviet, Gareth Ball, Rhiannon Birch, Bronwen Brooks, Gillian Bruce, Ian Buckley, Lis Burnett, Samantha Campbell, George Carroll, Christine Cave, Charles Champion, Janice Charles, Millie Collins, Marianne Cowpe, Pamela Drake, Vincent Driscoll, Anthony Ernest, Robert Fisher, Christopher Franks, Wendy Gilligan, Russell Godfrey, Emma Goodjohn, Ewan Goodjohn, Stephen Haines, Howard Hamilton, Sally Hanks, William Hennessy, Nic Hodges, Mark Hooper, Catherine Iannucci, Gwyn John, Dr. Ian Johnson, Belinda Loveluck-Edwards, Julie Lynch-Wilson, Kevin Mahoney, Naomi Marshallsea, Michael Morgan, Jayne Norman, Helen Payne, Elliot Penn, Sandra Perkes, Ian Perry, Joanna Protheroe, Ruba Sivagnanam, Carys Stallard, Neil Thomas, Rhys Thomas, Steffan Wiliam, Margaret Wilkinson, Edward Williams, Mark Wilson a Nicholas Wood.

## 494 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Maer y datganiad a ganlyn: “A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

## 495 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

## 496 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Medi, 2022 a’r cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd, 2022 fel cofnod cywir.

## 497 CYHOEDDIADAU –

Nododd y Maer ei bod wedi bod yn bresennol mewn 15 o ddigwyddiadau eraill ers cyfarfod diwethaf y Cyngor, a chyfeirio'n arbennig at y pleser o fod yn bresennol yng Ngwobrau Staff y Cyngor. Llongyfarchodd bawb a oedd wedi’u henwebu a’r enillwyr am y gwaith gwych yr oeddent yn ei wneud ar ran y Cyngor. Bu’n fraint iddi hefyd nodi Diwrnod y Cadoediad ac roedd yn bresennol yn saliwt y Gwn Brenhinol, lle ailgadarnhaodd y Cyngor ei ymrwymiad i’r Lluoedd Arfog drwy ail-lofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog. Roedd hi hefyd wedi bod yn falch iawn o fod yn bresennol ym hanner canmlwyddiant Sled Santa, Bord Gron y Barri - hanner canmlwyddiant yn rhannu

llawenydd a chyffro'r Nadolig â phlant y dref, yn ogystal â chodi arian er budd cannoedd o elusennau, grwpiau a chlybiau chwaraeon lleol. I gloi, roedd hi'n falch o gadarnhau bod Sefydliad y Maer hyd yma wedi cefnogi 21 o elusennau a grwpiau cymunedol ym mlwyddyn y Cyngor.

498 DEFNYDD O BWERAU BRYS Y PRIF WEITHREDWR (PW) –

PENDERFYNWYD – NODI’r defnydd o Bwerau Argyfwng y Prif Weithredwr.

Rheswm dros y penderfyniad

Gyda golwg ar Gyfansoddiad y Cyngor.

499 ADRODDIAD AR SEFYDLOGRWYDD Y FARCHNAD CAERDYDD A BRO MORGANNWG 2022 (CYF) –

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet Gofal Cymdeithasol ac Iechyd at yr eitem a gyfeiriwyd gan y Cabinet ynghylch y mater uchod a ofynnai i'r Cyngor gymeradwyo'r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad (MSR) yr oedd yn ofynnol i Gynghorau ei lunio a'i gyhoeddi er mwyn cydymffurfio ag Adran 144B o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014). Yr adroddiad hwnnw oedd y cyntaf o'i fath i gael ei lunio ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg, ac fe'i lluniwyd rhwng mis Hydref 2021 a mis Gorffennaf 2022.

Dywedodd fod y Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol wedi ystyried yr MSR ac wedi gofyn am ragor o wybodaeth ynghylch y mecanwaith gofynnol ar gyfer yr adroddiad blynyddol.

Gan gyfeirio at y Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol, tynnodd sylw at y ffaith y byddai angen i'r Bwrdd ystyried yr MSR gyda phartneriaid ac unrhyw ofynion gan Lywodraeth Cymru maes o law. Fel Cadeirydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, cydnabu fod hwn wedi bod yn ddarn allweddol o waith a diolchodd i'r Cyfarwyddwr a'i staff am gefnogi'r broses. Pwysleisiodd mai'r pwynt allweddol i'w gymryd o'r adroddiad oedd cydnabod anghenion Bro Morgannwg a sut yr ymdrinnir â'r heriau hyn.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Dr. Johnson at bwysigrwydd yr adroddiad gan ei fod yn nodi anghenion trigolion y sir dros y pum mlynedd nesaf ac yn mynd i'r afael â heriau cysylltiedig i sicrhau bod digon o gapasiti i ymateb i broblemau hysbys sydd o flaen y Cyngor, a thueddiadau'r dyfodol. Cyfeiriodd at y cynnydd o 40% mewn Plant sy’n Derbyn Gofal ledled Caerdydd a’r Fro yn y pum mlynedd diwethaf a phroblemau tebyg yn ymwneud â materion COVID-19, a'r modd y byddai'r heriau hyn yn cael eu goresgyn dros y blynyddoedd nesaf. Tynnodd sylw hefyd at rannau penodol o'r adroddiad, a chyfeirio at ei brofiad ei hun o weithio yn y gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc, a'r angen i fynd i'r afael â'r "canol coll" lle na allai plant gael cymorth gan fod eu hangen yn is na'r trothwy statudol.

Gan gyfeirio at gyfeiriad yr Aelod Cabinet ynghylch bod yn Gadeirydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, holodd y Cynghorydd Dr. Johnson sut yr oedd yn rhagweld

y byddai'r Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol / Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn ymdrin â'r adroddiad, a pha weithredu a geid yn ei sgil, a'r broses y byddai'r Cyngor yn ei defnyddio i graffu ar eu gweithrediadau ar raddfa leol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Williams at yr heriau yr oedd yr adroddiad yn eu cyflwyno i'r Cyngor, ac i'r asiantaethau eraill dan sylw, ac roedd hyn wedi'i gydnabod, ond nes i'r holl bartneriaid a'r Cyngor gymeradwyo'r MSR, nid oedd modd symud ymlaen â'r gwaith. Dywedodd mai'r cynllun oedd y byddai'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn bwrw ymlaen i gyflawni'r MSR mewn modd strwythuredig, ac roedd hynny'n cynnwys cynnal gweithdai â phartneriaid.

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO Adroddiad Sefydlogrwydd Marchnad Caerdydd a Bro Morgannwg 2022 fel y'i hystyriwyd gan y Cabinet ar 6 Hydref, 2022 (Cofnod Rhif C93).

Rheswm dros y penderfyniad

Sicrhau bod yr Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad wedi'i ystyried gan holl Aelodau'r Cyngor.

500 ADRODDIAD CANOL TYMOR RHEOLI’R TRYSORLYS (CYF) –

Amlinellodd yr Arweinydd yr adroddiad a oedd wedi cael ei baratoi i gydymffurfio â Chod Ymarfer CIPFA, ac a drafodai ystod o faterion ar 30 Medi, 2022. Roedd y Dangosyddion Rheoli Trysorlys wedi cael eu seilio ar y Rhaglen Gyfalaf a gymeradwywyd yn y Cabinet ar 3 Tachwedd, 2022, ac yn cynnwys proffil newydd o gynllun y Fargen Ddinesig. Roedd y dangosyddion hyn hefyd yn cymharu’r amcangyfrifon gwreiddiol a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 3ydd Mawrth, 2022 â'r amcangyfrifon diwygiedig yn 2022/23. Roedd Cod Ymarfer diwygiedig CIPFA 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol fabwysiadu dangosydd darbodus newydd o'r enw Meincnod Atebolrwydd o 2023/24 ac roedd hwnnw bellach wedi'i ymgorffori yn yr adroddiad. Cyfeiriodd at yr adran portffolio buddsoddi sy'n dangos portffolio buddsoddi'r Cyngor o 1 Ebrill hyd at 30 Medi, 2022, lle'r oedd y Cyngor yn parhau i roi sylw i sicrwydd a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio sicrhau'r arenillion mwyaf ar fuddsoddiad. O ran cyfleoedd i aildrefnu dyledion, roedd y rhain yn gyfyngedig oherwydd yr hinsawdd economaidd bresennol, felly nid oedd unrhyw ddyledion wedi'u haildrefnu hyd yma yn y flwyddyn ariannol gyfredol.

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo adroddiad canol blwyddyn Rheolaeth y Trysorlys ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill, 2022 i 30 Medi, 2022.

(2) Cymeradwyo'r dangosyddion Rheoli Trysorlys diweddaraf.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Gyda golwg ar Reoli Trysorlys CIPFA yn y Gwasanaethau Cyhoeddus; Cod Ymarfer.

(2) I gydnabod bod y dangosyddion wedi'u cynnwys yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.

501 ADOLYGIAD CYMUNEDOL BRO MORGANNWG (CYF) –

Cyfeiriodd yr Arweinydd at adroddiad gwreiddiol y Cabinet dyddiedig 30 Ebrill, 2018 a oedd yn nodi trefniadau ar gyfer cynnal adolygiad cymunedol yn unol â gofynion Deddf Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 ar gyfer Bro Morgannwg i'w chychwyn ym mis Mehefin 2023 oherwydd amseriad adolygiad prif ardal Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ar gyfer Bro Morgannwg, a'r angen i osgoi'r risg o ddryswch ymhlith pleidleiswyr yn ystod yr etholiadau a oedd i'w cynnal yn 2021 a 2022.

Roedd hi wedi dwyn y mater gerbron y Cyngor i sicrhau bod yr holl Aelodau'n ymwybodol o'r broses a'r graddfeydd amser cysylltiedig. Byddai'r mater yn cael ei gyfeirio i sylw'r Pwyllgor Cyswllt Cymunedol ac i sylw holl Gynghorau Tref a Chymuned Bro Morgannwg.

Roedd y Cynghorydd Dr. Johnson yn croesawu'r adolygiad, gan mai dyma oedd y cyfle cyntaf ers 2009 i ystyried a oedd y trefniadau presennol yn adlewyrchu'r cymunedau yr oeddent i fod i'w gwasanaethu. Roedd yn sicr y byddai'r Cynghorau Tref a Chymuned yn cymryd rhan lawn yn y broses, yn ogystal â'r pleidiau gwleidyddol. Yr oedd hefyd am sicrhau bod pob etholwr yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad i sicrhau bod y ffiniau Cymuned a fyddai'n cael eu hargymell yn seiliedig ar faint y Cynghorau Tref a Chymuned.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi Adolygiad Cymunedol Bro Morgannwg fel y'i ystyriwyd gan y Cabinet ar 17 Tachwedd, 2022 (Cofnod Rhif C133).

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Gan gydnabod mai mater i'r Cyngor oedd yr argymhellion terfynol yn ymwneud â'r Adolygiad.

502 CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH Y CYNGOR (CYF) –

PENDERFYNWYD –

(1) BOD Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) OS 2013/3029 ("y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig") a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2014 O.S. mabwysiadu 2014/66.

(2) Bod unrhyw ddiwygiadau i Reoliadau a wneir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu hadlewyrchu yn y cynllun.

(3) Bod y cynllun cenedlaethol yn cael ei fabwysiadu gyda'r disgresiwn a ganlyn:-

- Caniatáu i Daliadau Estynedig hyd at uchafswm o 4 wythnos barhau.
- Bod pensiynau Rhyfel Gweddw ac Anabledd Rhyfel wrth asesu incwm ar gyfer Gostyngiad Treth y Cyngor yn parhau i gael eu diystyru.
- Bod Gostyngiadau Ôl-ddyddiedig yn parhau i gael eu caniatáu am gyfnod hyd at 26 wythnos.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1-3) Galluogi Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i gael ei gymeradwyo a'i roi ar waith i'w weithredu o 1 Ebrill, 2023.

503 HUNANASESIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYNGOR BRO MORGANNWG 2021/22 (CYF) –

PENDERFYNWYD –NODI'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod Cabinet Rhif C63, 8 Medi, 2022 (fel y nodir yn Adran 15.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor).

Rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

504 POLISI CLUDIANT YSGOL A CHOLEG DIWYGIEDIG (CYF) –

PENDERFYNWYD –NODI'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod Cabinet Rhif C76, 29 Medi, 2022 (fel y nodir yn Adran 15.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor).

Rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

505 CYNNIG I YCHWANEGU ST RICHARD GWYN AT Y RHAGLEN GYFALAF (CYF) –

PENDERFYNWYD –NODI'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod Cabinet Rhif C77, 29 Medi, 2022 (fel y nodir yn Adran 15.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor).

Rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

506 MONITRO CYFALAF AM Y CYFNOD RHWNG 1 EBRILL A 31 AWST 2022 (CYF) –

PENDERFYNWYD –NODI’r defnydd o’r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod Cabinet Rhif C90, 6 Hydref, 2022 (fel y nodir yn Adran 15.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor).

Rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o’r Weithdrefn Penderfyniad Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

507 YMGYNGHORIAD DWR CYMUR WELSH WATER AR Y CYNLLUN RHEOLI DRAENIO A DŴR GWASTRAFF (DWMP) (CYF) –

PENDERFYNWYD –NODI’r defnydd o’r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod Cabinet Rhif C95, 6 Hydref, 2022 (fel y nodir yn Adran 15.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor).

Rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o’r Weithdrefn Penderfyniad Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

508 ADRODDIAD HUNANASESU BLYNYDDOL DRAFFT TERFYNOL CYNGOR BRO MORGANNWG 2021/22 (CYF) –

PENDERFYNWYD –NODI’r defnydd o’r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod Cabinet Rhif C104, 20 Hydref, 2022 (fel y nodir yn Adran 15.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor).

Rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o’r Weithdrefn Penderfyniad Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

509 MONITRO CYFALAF AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 30 MEDI 2022 (CYF) –

PENDERFYNWYD –NODI’r defnydd o’r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod Cabinet Rhif C119, 3 Tachwedd, 2022 (fel y nodir yn Adran 15.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor).

Rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o’r Weithdrefn Penderfyniad Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

510 YMGYNGHORIAD AR GYNIGION AR GYFER DEDDFWRIAETH SYLFAENOL MEWN PERTHYNAS Â GOFAL CYMDEITHASOL PLANT, GOFAL IECHYD PARHAUS, ADRODD GORFODOL A RHEOLEIDDIO AC AROLYGU (CYF) –

PENDERFYNWYD –NODI'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod Cabinet Rhif C123, 3 Tachwedd, 2022 (fel y nodir yn Adran 15.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor).

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

511 CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH Y CYNGOR (CYF) –

PENDERFYNWYD –NODI'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod Cabinet Rhif C159, 1 Rhagfyr, 2022 (fel y nodir yn Adran 15.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor).

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

512 CWESTIYNAU SY'N UNOL AG ADRAN 4.18 O GYFANSODDIAD Y CYNGOR –

Cyflwynwyd yr ymatebion a ganlyn i gwestiynau gan yr Aelodau a oedd wedi'u nodi ar yr agenda.

(i) **<u>Cwestiwn gan y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson</u>**

Pa gynlluniau sydd gan Gyngor y Fro i gefnogi'r bobl ifanc sydd bellaf o'r farchnad swyddi wedi i Inspire to Achieve (I2A) ac Inspire to Work (I2W) gau ar ddiwedd y flwyddyn gan fod cyllid yr UE ar gyfer y rhaglenni hynny wedi dod i ben?

**<u>Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau</u>**

Er gwaethaf yr heriau cyllidebol sylweddol, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar y gwasanaeth allweddol hwn, a rhoi blaenoriaeth iddo, fel y gallwn helpu'r bobl ifanc sydd yn fwyaf agored i niwed ymuno â'r farchnad swyddi.

**<u>Atodol</u>**

Gan gyfeirio at Raglenni Inspire to Achieve ac Inspire to Work, ac at weithio gyda Llamau yn y gorffennol ar y prosiect hwnnw, holodd y Cynghorydd Dr. Johnson a

fyddai'r Cyngor yn parhau i weithio gyda Llamau yn y dyfodol.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y Gwasanaeth Ieuenctid a oedd wedi rhagweld y byddai Cyllid Cymdeithasol Ewrop yn cael ei golli ar gyfer prosiectau Inspire to Achieve ac Inspire to Work drwy ail-lunio ei wasanaeth targededig. Canlyniad hyn oedd cau'r Rhaglen Ymgysylltu Ieuenctid a oedd yn gweithredu'n ddyddiol o YMCA y Barri. Roedd y Rhaglen yn cynnig darpariaeth undydd i fyfyrwyr sy'n mynychu Derw Newydd i gynnig cymhwyster BTEC Lefel 1 neu 2 ac i gyflwyno'r Addysg Bersonol, Gymdeithasol ac Iechyd.  Roedd amrywiaeth o fentrau eraill yn cefnogi pobl ifanc. Wrth baratoi'r rhaglen ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin, roedd hi wedi cael cyfarfod cynhyrchiol â Llamau. Roedd y Cyngor wedi gweithio'n llwyddiannus gyda'r elusen, ond nid oedd ganddi unrhyw fanylion hyd yma am gynigion i weithio gyda nhw yn y dyfodol.

(ii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd Dr. IJ. Johnson**

Pa ystyriaeth a roddwyd i effaith llifogydd a'r newid hinsawdd yn rhan o'r cais i ailddatblygu Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn yn y Barri?

**Ymateb gan y Dirprwy Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros Leoedd Cynaliadwy**

Gallaf sicrhau'r holl Aelodau fod ystyriaeth lawn wedi'i rhoi ac yn parhau i gael ei rhoi i effaith newid yr hinsawdd yng nghyswllt ailddatblygu Sant Richard Gwyn.

**Atodol**

Gan gyfeirio at ymateb yr Aelod Cabinet, gofynnodd y Cynghorydd Dr. Johnson am eglurhad ynghylch pa ystyriaethau a gafwyd i liniaru'r risg o lifogydd, a sut y byddai'r ystyriaethau hynny'n cael eu gweithredu ar y safle.

Yn rhan o'r cynlluniau ailddatblygu cychwynnol ar gyfer Ysgol Gyfun Gatholig Sant Richard Gwyn, nododd y Dirprwy Arweinydd fod ymarfer lliniaru llifogydd wedi'i gynnal mewn ymgynghoriad â Chyfoeth Naturiol Cymru a'r Corff Cymeradwyo Draeniau Cynaliadwy leol, i bennu'r hyn a fyddai'n bosib ar y safle er mwyn mynd i'r afael â'r problemau llifogydd a geir yno, heb amharu ar yr ardaloedd oddi amgylch.

Roedd y cynnig cyfredol yn cynnwys nifer o fasnau a phantiau ar y safle i wasgaru dŵr wyneb o'r safle a hefyd o ran o Lôn Argae ar hyd rhwydwaith a fyddai'n mynd o amgylch ymylon y safle.

Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau SDC, ac i fynd i'r afael â'r dŵr wyneb a gynhyrchir ar y safle, roedd y cynnig cyfredol yn cynnwys adeiladu to gwyrdd, a fyddai'n sicrhau y byddai'r rhan fwyaf o ddŵr wyneb a gynhyrchir gan law yn cael ei drin ar holl arwynebedd adeilad, a hefyd yn cyfyngu ar faint y  dŵr a fyddai'n llifo i mewn i'r brif system. Lle bo'n bosibl, byddai'r arwynebeddau allanol yn hydraidd, gan gynnwys cae 3G, Ardal Chwaraeon Amlddefnydd ac, o bosib, y mannau parcio, a byddai hynny'n golygu bod llai eto o ddŵr wyneb yn llifo i mewn i'r brif system..

Roedd y dyluniad ar gyfer ailddatblygu safle’r ysgol yn ei gamau cynnar, ond y prif egwyddor yn ogystal â darparu adeilad cynaliadwy, ynni-effeithlon oedd sicrhau bod dŵr wyneb yn cael ei drin ar y safle, gan gyfyngu ar ddŵr a fyddai'n llifo i mewn i’r cwrs dŵr lleol, er mwyn lleihau unrhyw ddŵr wyneb ychwanegol a fyddai'n llifo i mewn i'r system dŵr wyneb bresennol.

(iii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson**

Yn y flwyddyn galendr hyd yn hyn, faint o hysbysiadau tâl cosb am droseddau traffig a wnaed o ganlyniad i (a) y Car Camera Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio a (b) Swyddogion Gorfodi ar droed, a pha asesiad a oedd wedi'i gynnal o'r defnydd o Gar Camera Gorfodi, ac effeithiolrwydd hynny wrth leihau achosion o barcio'n beryglus, ers cyflwyno'r dull hwnnw.

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu**

Yn y cyfnod rhwng 1 Ionawr 2022 a 31 Hydref 2022 mae 6,087 o hysbysiadau tâl cosb wedi cael eu cyflwyno gan swyddogion gorfodi ar droed, a 6,347 o hysbysiadau tâl cosb gan y car camera.

Mae'n anodd asesu llwyddiant y car camer o ran lleihau achosion o barcio peryglus, ond mae ein swyddogion wedi sylwi bod llai o dramgwyddau'n digwydd mewn lleoliadau fel ysgolion ac ar groesfannau cerddwyr yn dilyn cyfnodau o orfodaeth.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Dr. Johnson i'r Aelod Cabinet esbonio'r sail ar gyfer nifer yr hysbysiadau a gyflwynir, a sut y defnyddiwyd yr wybodaeth hon i gael dealltwriaeth well o'r ardaloedd lle'r oedd achosion o barcio peryglus yn digwydd.

Gan gyfeirio at lawer o ymgyrchoedd a oedd wedi'u cynnal, tynnodd yr Aelod Cabinet sylw at un enghraifft, sef Operation Frozen, a sefydlwyd i archwilio pam bod nifer cymharol fawr o hysbysiadau'n cael eu rhoi yn y gilfach lwytho i gerbydau nwyddau yn unig ar Heol Windsor yng nghanol tref Penarth. Dros gyfnod o bum niwrnod, roedd swyddogion i'w gweld yn amlwg wrth y gilfach lwytho honno, a newidiwyd llwybr y Cerbyd Camera Gorfodi i osgoi'r lleoliad. Dyna oedd cam un yr ymgyrch. Byddai ardaloedd eraill lle nodwyd pryderon amlwg yn cael sylw, gan gynnwys camau gorfodi mewn ardaloedd eraill ac ymgyrchoedd i atgoffa'r cyhoedd ynghylch lle i barcio'n ddiogel, a bod angen i yrwyr gadw at y rheolau.

(iv) **Cwestiwn gan y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson**

Caewyd marchnad wythnosol Heol Holton yng nghanol tref y Barri ym mis Ebrill, cyn yr etholiadau lleol.  Pa gynlluniau sydd gan y Cyngor i sicrhau y bydd marchnad reolaidd yn dychwelyd i ganol y dref, sy'n denu mwy o siopwyr a busnes i siopau parhaol, yn ogystal â masnachwyr y farchnad?

**Ymateb gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Leoedd Cynaliadwy**

Fel y bydd y Cynghorydd Dr. Johnson yn ymwybodol o'i gysylltiad â thîm yr economi, mae'r Cyngor wedi penodi gweithredwr marchnad newydd sy'n bwriadu cynnal marchnad fisol ac ynddi tua 30 o stondinau ar Sgwâr y Brenin, gan ddechrau ar 16 Rhagfyr.

**Atodol**

Wrth gyfeirio at bryderon y cyhoedd ynghylch ardal Heol Holton ac at y Weinyddiaeth flaenorol a gynhaliodd uwchgynhadledd economaidd ehangach lwyddiannus, gofynnodd y Cynghorydd Dr. Johnson a fyddai'r Aelod Cabinet yn ailadrodd y digwyddiad hwnnw.

Roedd yr Aelod Cabinet yn hapus i drafod y mater ymhellach gyda'r Cynghorydd Dr.Johnson, a gofynnodd iddo anfon e-bost ati ynghylch hynny.

(v) **Cwestiwn gan y Cynghorydd C.P. Franks**

Rydym yn ymwybodol o'r heriau ariannol o'n blaen, wedi'u hysgogi'n rhannol gan flerwch San Steffan wrth reoli'r economi.

A wnaiff yr Aelod Cabinet fanylu ar sefyllfa ddiweddaraf y trafodaethau â Llywodraeth Cymru ynghylch y setliad ariannol i Gynghorau?

**Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Rwyf wedi cael nifer sylweddol o gyfarfodydd gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru i drafod yr heriau a'r pwysau ar y gyllideb. Rwyf hefyd wedi cael sawl cyfarfod â Llywodraeth Cymru yn rhan o drefniant ehangach CLlLC. Byddaf yn parhau i bwyso am setliad cystal â phosibl ac ystyried y sefyllfa bresennol fel yr esboniodd y Canghellor yn ei Ddatganiad Cyllidol.

**Atodol**

Gan gyfeirio at y ffaith bod y datganiad cyllideb tebygol yn hwyr, gofynnodd i'r Arweinydd nodi sut y gellid disgwyl i ysgolion ddrafftio eu cyllidebau yn yr amgylchiadau presennol.

Dywedodd yr Arweinydd y byddai hyn yn digwydd yn yr un modd ag a amlinellwyd yn yr amserlen ar gyfer pennu'r gyllideb, a oedd yn cynnwys y mecanwaith ar gyfer cyflwyno cynigion, sut y byddai hynny'n cael ei gyfleu wrth yr Aelodau, sut y byddai'n cael ei drafod yn y Pwyllgorau Craffu a sut y byddai'n datblygu cynigion ar gyfer y gyllideb derfynol. Roedd cyfathrebu hefyd yn parhau â'r ysgolion.

(vi) **Cwestiwn gan y Cynghorydd C.P. Franks**

Cawn ein rhybuddio bob dydd ynghylch y pwysau economaidd o flaen Cyngor Bro Morgannwg. Pa mor effeithiol ydych chi'n ymgysylltu â Llywodraeth Cymru?

**Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Rwy'n parhau i wthio'r achos am gyllid digonol yng nghyd-destun yr heriau ariannol presennol, a phwysleisio gwerth a phwysigrwydd gwasanaethau llywodraeth leol, yn enwedig i'n trigolion mwyaf bregus. Fe'ch cyfeiriaf i'm hateb blaenorol ynghylch y cyswllt parhaus a'r wythnos diwethaf bûm yn trafod â Jane Hutt, Vaughan Gething ac Eluned Morgan, Hannah Blythe a Jeremy Miles, a'r bore yma â Rebecca Evans, ac ar bob cyfle rwy'n hyrwyddo achos y Cyngor.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Franks i'r Arweinydd a oedd Llywodraeth Cymru wedi mynegi unrhyw sylw ynghylch y cronfeydd wrth gefn sylweddol a ddelir gan y Cyngor.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at drafodaethau yr oedd wedi cael, nid gyda Llywodraeth Cymru o reidrwydd, ond gydag Arweinwyr y Cynghorau eraill, ynghylch y ffaith nad oedd rhai Cynghorwyr yn gallu deall gwahanol ddibenion y cronfeydd wrth gefn, a'r ffaith od rhai cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi. Roedd rhai'n gyfyngedig, gydag ond cyfran fechan o oddeutu 5% wedi'i chynnwys yn y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol. Gan nodi bod y Cynghorydd Franks wedi bod i ffwrdd ers tro, roedd hi'n siŵr bod y rhan fwyaf o'r Aelodau'n deall y gwahaniaethau rhwng y mathau hynny o gronfeydd wrth gefn. Gan gyfeirio at waith ailwampio'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a gyflawnwyd yn ddiweddar, bu trafodaeth ynghylch cronfeydd wrth gefn i weld a allai eu hailbroffilio'n unol â'r gofrestr risg gyfredol olygu bod modd defnyddio rhywfaint o'r arian hwnnw ai peidio. Byddai hyn yn cael sylw wrth ystyried y gyllideb ym mis Ionawr.

(vii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd C.P. Franks**

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y ceir cynnydd o 3.5% y flwyddyn nesaf yn y gefnogaeth i wasanaethau'r Cyngor. Os nad yw Llywodraeth Cymru yn darparu grant rhesymol, pa doriadau ydych chi'n bwriadu eu cynnig?

**Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Cymeradwyodd y Cabinet y Strategaeth Ariannol a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar 6 Hydref, a dybiai'r lefel hon o gyllid ac a nodai fwlch cyffredinol o £28m yn y gyllideb.

Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys yr amserlen, gan gynnwys y prif ddibyniaethau, ar gyfer cymeradwyo cyllideb 2023/24. Awgrymaf y dylech daro golwg ar yr adroddiad hwnnw.

O ran manylion penodol, awgrymaf y dylech ddisgwyl am y setliad drafft gan Lywodraeth Cymru ar 13 Rhagfyr a'r adroddiadau amrywiol a fydd yn dilyn hynny, a phryd hynny byddwch yn cael cyfle i ymateb yn rhan o'r broses. Byddai trafodaeth lawn yn cael ei chynnal yn y Pwyllgorau Craffu.

**Atodol**

Dywedodd y Cynghorydd Franks ei fod yn deall y gofynnwyd i swyddogion gynnwys toriadau sylweddol wrth baratoi'r cyllidebau, a gofynnodd a fyddai'r Arweinydd y rhoi dadansoddiad o'r toriadau hyn.

Atgoffodd yr Arweinydd y Cynghorydd Franks fod y Cyngor yn gweithio'n unol ag amserlen. Nid oedd yn gweld y byddai trafod neu edrych ar senarios yn adeiladol wrth ddisgwyl y cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru.

(viii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd C.P. Franks**

Yn ôl yr adroddiad, mae Llywodraeth Cymru'n dyrannu refeniw i Gynghorau er mwyn helpu i liniaru tlodi. Faint yw'r cyllid dan sylw, ac a oes yn rhaid gwneud cais amdano?

**Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Mae lliniaru tlodi yn un o brif feysydd ffocws y Cyngor, a defnyddir cyllid craidd a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ac a godir drwy'r Dreth Gyngor i'r diben hwnnw. Bydd y Cynghorydd Franks yn ymwybodol o'r ymrwymiadau i drechu tlodi yng Nghynllun Corfforaethol a Chynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor.

Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Cyngor yn ei wneud drwy ddefnyddio ei gyllid craidd, mae'r Cyngor wedi derbyn ystod eang o ffrydiau grant yn 2022/23:

- Costau Byw £150 i bawb mewn Eiddo A i D - £5,014,200
- Costau Byw Dewisol ar gyfer rhai nad ydynt yn gymwys drwy'r cynllun £150 ac sy'n profi caledi - £824,865
- Taliadau Tanwydd y Gaeaf £1,705,400 hyd yma gyda £191,600 yn yr arfaeth
- Cronfa Cymorth Uniongyrchol - £50,096
- Cyllid y Bartneriaeth Bwyd - £97,000
- Cyllid Canolfan Gynnes - £33,136.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu'r holl grantiau hyn, ni fu angen i'r Cyngor fynd drwy unrhyw broses i ymgeisio i Lywodraeth Cymru.

Penderfynir sut i rannu mwyafrif y cyllid drwy'r canllawiau grant a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Un o'r prif eithriadau i hyn yw'r Cynllun Costau Byw Dewisol a chytunodd y Cabinet ar y cynllun i ddyrannu'r arian hwn ar 9 Mehefin, 2022.

Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu ag ystod eang o sefydliadau a grwpiau cymunedol i wahodd ceisiadau am arian o'r cynlluniau sy'n weddill ac mae'r gwaith o ddyrannu'r arian hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Franks a oedd cynllun llesiant y Cyngor yn cynnwys set gadarn o ddangosyddion a mesurau canlyniad cyson er mwyn cynyddu'r ddealltwriaeth o dlodi yn lleol?

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod hynny'n wir, ond nid oedd yn deall y cwestiwn yn nhermau'r hyn yr oedd yn cyfeirio ato wrth sôn am ddeall tlodi, a'r cyswllt rhwng hynny a'r cwestiwn gwreiddiol.  Gofynnodd i'r Cynghorydd Franks ysgrifennu ati ar y mater hwn ac y byddai'n rhoi ateb iddo.

(ix) **Cwestiwn gan y Cynghorydd C.P. Franks**

O ran lliniaru tlodi, pa gyllid sydd ar gael i'r Fro, ac a yw wedi'i wario'n llwyr?

**Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Cyfeiriaf at fy ateb blaenorol, ond o ran faint sydd wedi'i wario:  Mae'r Gronfa Cymorth i Aelwydydd wedi'i gwario'n llawn.  Nid yw'r Gronfa Cymorth Bwyd Uniongyrchol wedi'i gwario'n llwyr eto. Gwnaethom wario £29,920.  Mae'r Gronfa Ddewisol Costau Byw wedi'i gwario'n llawn.  Y Gronfa Partneriaeth Bwyd, mae gennym swm dangosol o £97,000, ond yr ydym ar hyn o bryd yn aros am y telerau ac amodau yn gysylltiedig â hynny.  Mae'r Gronfa Canolfannau Cynnes yn cynnwys £33,196, ac mae £11,671 o'r gronfa honno wedi'i wario, ac rydym ar hyn o bryd yn gweithio drwy geisiadau am gymorth. Mae hynny'n golygu, o'r cyfanswm o £166,039, nad yw'n cynnwys y swm dangosol ar gyfer y Gronfa Partneriaeth Bwyd, ein bod wedi gwario £124,338.

**Atodol**

Gan gyfeirio at y ffaith bod nifer o gyllidebau wedi'u gwario'n llawn, gofynnodd y Cynghorydd Franks i'r Arweinydd beth fyddai'n digwydd am weddill y flwyddyn ariannol.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at ei hateb blaenorol, ond atgoffodd yr Aelodau fod gan y Cyngor, drwy ei Gynllun Corfforaethol a'i Gynllun Cyflawni Blynyddol, eisoes weithgareddau ychwanegol i drechu tlodi, ac y byddai'n parhau â'r gwaith i fynd i'r afael â'r broblem, ac yn manteisio ar grantiau ychwanegol y gellid hefyd eu defnyddio'n effeithiol.

(x) **Cwestiwn gan y Cynghorydd C.P. Franks**

A wnewch nodi sut y caiff arian ei ddyrannu yn gysylltiedig â lliniaru tlodi?

**Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Cyfeiriaf fy nau ateb blaenorol i sylw'r Cynghorydd Franks.

(xi) **Cwestiwn gan y Cynghorydd C.P. Franks**

Yn ôl adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol: Mae allgáu cymdeithasol yn parhau i fod yn her fawr ac mae data'n dangos bod pobl mewn tlodi yn gallu ei chael hi'n anodd manteisio ar wasanaethau ar-lein. Sut mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â'r pryder hwn?

**Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Mae'r Cyngor yn sicrhau bod modd cyrchu gwasanaethau a gwybodaeth y Cyngor mewn amrywiaeth o ffyrdd, nid yn unig yn ddigidol. Er enghraifft, caiff ymarferion ymgynghori eu hyrwyddo ar fformatau annigidol, a chyda mecanweithiau cwblhau annigidol. Mae gwasanaethau'r Cyngor yn parhau i fod yn hygyrch dros y ffôn ac wyneb yn wyneb.

Mae'r Cyngor wedi sefydlu rhwydwaith cynhwysiant digidol sy'n darparu hyfforddiant ar ddefnyddio technoleg ddigidol.

Efallai fod y Cynghorydd Franks hefyd yn gwybod am y gwaith sylweddol a gyflawnwyd yn ystod y pandemig i ddarparu gliniaduron a sicrhau mynediad i'r rhyngrwyd i ddisgyblion a oedd heb yr adnoddau hynny, er mwyn sicrhau eu bod y parhau i ddysgu yn ystod y pandemig. Roedd gan y Cyngor hefyd wi-fi am ddim mewn adeiladau, Gofod Gwneud ym Mhenarth, ac yn fuan hefyd yn y Barri gobeithio, a gwasanaeth rhoi llechi ar fenthyg a hyfforddiant ar ddefnyddio llechen yn y llyfrgelloedd.

Nid tlodi oedd yr unig broblem, roedd y Cyngor hefyd yn mynd i'r afael â llythrennedd digidol.

(xii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd C.P. Franks**

Ac ystyried y pwysau ariannol aruthrol sydd o flaen ysgolion y Fro, a allwch esbonio pa gymorth ariannol ychwanegol y byddwch yn ei argymell i'r ysgolion yn y flwyddyn ariannol hon?

**Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Rydw i ac uwch swyddogion wedi cyfarfod â'r Fforwm Cyllidebau Ysgol a'r holl Benaethiaid y mis diwethaf.

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 mae'r ysgolion yn gorfod ymdopi â phwysau yn sgil dyfarniadau cyflog a chostau cyfleustodau llawer uwch nag a ragwelwyd, yn yr

union un modd ag y mae gwasanaethau eraill y Cyngor yn gorfod gwneud, ac yn y pen draw, mae'r ysgolion yn rhan o'r Cyngor.

Fe'u cynghorwyd i roi ystyriaeth ofalus i unrhyw wariant dewisol ac o bosib ystyried defnyddio cronfeydd wrth gefn i reoli'r pwysau ariannol. Mae hyn yn adlewyrchu'r dull y mae'r Cyngor yn ei fabwysiadu ar gyfer gweddill ei wasanaethau.

**Atodol**

Dywedodd y Cynghorydd Franks fod y rhan fwyaf o ysgolion wedi cyllidebu ar gyfer cynnydd o 3% i ddyfarniadau cyflog y staff, ond 5% oedd y setliadau, a gofynnodd i'r Arweinydd a fyddai'n cadarnhau y byddai ysgolion yn cael cefnogaeth i bontio'r bwlch.

Cyfeiriodd yr Arweinydd ei hateb cynharach i gwestiwn blaenorol y Cynghorydd Franks i'w sylw, o ran yr amserlen ar gyfer cyhoeddiadau'r gyllideb. Tynnodd ei sylw at y ffaith bod cyllideb y Cyngor ei hun wedi'i seilio ar y rhagdybiaeth o gynnydd o 3%mewn cyflogau, ac felly fod y Cyngor yn ei gyfanrwydd yn wynebu'r un anawsterau. Byddai'r Cyngor yn parhau i siarad â'r ysgolion er mwyn cydweithio i ddatrys y mater, ond ni allai hynny ddigwydd nes gwybod beth oedd y setliad gan Lywodraeth Cymru.

(xiii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd C.P. Franks**

Byddwch yn ymwybodol bod grantiau gan Lywodraeth Cymru yn chwarae rhan hanfodol er mwyn cynorthwyo disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol. A oes unrhyw awgrym y bydd Llywodraeth Cymru'n cadw'r grantiau hynny ar yr un lefel?

**Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Yn ôl yr arfer, nid oes unrhyw awgrym hyd yma. Fel arfer ni chaiff mwyafrif y cynlluniau grant eu cadarnhau tan y flwyddyn newydd ar ôl cyhoeddi'r Setliad yng nghanol mis Rhagfyr.

**Atodol**

Teimlai'r Cynghorydd Franks yn anniddig ynghylch y diffyg gwybodaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru a'r Arweinydd, a holodd sut roedd disgwyl i'r ysgolion ymdopi.

Atgoffodd yr Arweinydd y Cynghorydd Franks na ellid disgwyl i Lywodraeth Cymru wneud datganiad ar y gyllideb pan na fyddai'r Llywodraeth ei hun yn gwybod beth fyddai ei chyllideb debygol tan ganol mis Tachwedd. Gan hynny, nid oedd y Cyngor ychwaith yn gallu gwneud unrhyw ddatganiad ynghylch ei gyllideb, na fyddai'n hysbys yn ôl pob tebyg tan 14 Rhagfyr, 2022. Y cyfan y gellid ei wneud oedd cynllunio ar gyfer senarios. Roedd hi'n ystyried bod beirniadaeth y Cynghorydd Franks yn hynod anghyfrifol.

(xiv) **Cwestiwn gan y Cynghorydd C.P. Franks**

Mae llawer o ysgolion yn ofni y bydd diffyg yn eu cyllidebau'r flwyddyn nesaf. Beth fyddwch chi'n ei wneud i ddiogelu ysgolion rhag gorfod mynd ar drywydd diswyddiadau?

**Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Fel y nodais eisoes, bu Uwch Swyddogion a minnau'n cyfarfod â'r Fforwm Cyllidebau Ysgol a'r holl benaethiaid y mis diwethaf, ac fe'u cynghorwyd i gynllunio am ostyngiadau o 10%, sef yr hyn a ystyrir yn senario waethaf ar hyn o bryd tra na does gennym fanylion Setliad Llywodraeth Cymru.

Nid ydym yn deall yn llawn beth fydd effaith cyhoeddiad Cyllideb y Canghellor ar 17 Tachwedd, ond rhagwelir a gobeithir am ganlyniad gwell i'r ysgolion, ac mae'r swyddogion yn gweithio drwy nifer o senarios sy'n cael eu harchwilio gan y Llywodraethwyr Ysgol.

(xv) **Cwestiwn gan y Cynghorydd G. Bruce**

Mae bwlch difrifol yng nghyllid Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.Pam felly na chafwyd cais i Lywodraeth Cymru am gyllid ychwanegol, pan fu'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddychwelyd £155 miliwn i'r Trysorlys gan nad oedd yr arian hwn wedi'i ddyrannu i Gynghorau, Ysgolion a'r GIG yng Nghymru?

**Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Bûm yn ddigon ffodus i daro ar y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol y bore yma, a chael cyfle i gadarnhau'r honiad a wnaethoch yn eich cwestiynau. Yn wir, roedd hyn yn destun llythyr a anfonwyd at Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn gynharach eleni, ac edrychai ar benderfyniad Llywodraeth y DU i wrthod elfen o hyblygrwydd yn gysylltiedig â rheolaethau refeniw a chyfalaf unigol. Ar ôl gohebiaeth estynedig â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys a swyddogion Trysorlys E.M., gwrthodwyd yr hyblygrwydd hwnnw iddynt osod gorwariant cyfalaf yn erbyn peth o'r tanwariant refeniw. Rwy'n teimlo bod angen dweud mai tanwariant adrannau Llywodraeth y DU yw £25 biliwn sy'n cynrychioli bron 6% o gyfanswm y ddarpariaeth sydd ar gael iddynt. Cafwyd tanwariant o dros 9% yn yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ei hun. Cyfran Cymru o'r swm hwnnw, ar sail fformiwla Barnett fyddai bron i £1 biliwn, ond nid oedd y tanwariant yng Nghymru a godwyd gennych chi ond mewn gwirionedd yn cynrychioli 1% o'r adnoddau sydd ar gael, sy'n arddangos cryn effeithiolrwydd yn rheolaeth llywodraethau datganoledig dros eu cyllidebau.

Mae'r Cyngor yn parhau i lobïo Llywodraeth Cymru drwy nifer o wahanol sianeli am gyllid ychwanegol ac mae hyn yn cynnwys drwy CLlLC i sicrhau bod yr adnoddau ychwanegol uwchlaw'r cynnydd o 3.5% yr ymrwymwyd iddo yn y Cyllid Allanol Cyfun yng nghyhoeddiad cyllideb y Canghellor yn cael eu cyfeirio tuag at gefnogi gofal cymdeithasol oedolion ac ysgolion yn arbennig.

(xvi) **<u>Cwestiwn gan y Cynghorydd W.A. Hennessy</u>**

A oes unrhyw ddata i egluro’r cynnydd sylweddol mewn absenoldebau o 197 (1933 o ddiwrnodau wedi’u colli) ym mis Gorffennaf 2020 o’i gymharu â 709 (4389 o ddiwrnodau wedi’u colli) ym mis Gorffennaf 2022”?

**<u>Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau</u>**

Cyflwynir ystadegau absenoldeb manwl i'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol bob chwe mis yn rhan o'r trefniadau y cytunwyd arnynt o ran perfformiad. Mae'r adroddiad diweddaraf yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 17eg Tachwedd, a'i gyfeirio i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau ar 14eg Rhagfyr. Mae croeso i unrhyw Aelod fod yn bresennol a siarad yn y cyfarfodydd hynny os dymunant.

Bydd cymariaethau rhwng Gorffennaf 2020 a Gorffennaf 2022 yn dangos cynnydd oherwydd yn ystod y pandemig byddai unrhyw absenoldebau cysylltiedig â covid (am y 10 diwrnod cyntaf) wedi cael eu hystyried yn gyfnodau hunan-ynysu yn hytrach nag absenoldeb salwch yn unol â'n polisïau cytunedig - a byddai hynny'n esbonio'r anghysondeb.

(xvii) **<u>Cwestiwn gan y Cynghorydd G. Bruce</u>**

Faint mae'n gostio i adnewyddu pob ffenestr yn Ysgol Gynradd y Rhws, lle bo'r ffenestri mewn cyflwr gwael iawn?

**<u>Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a’r Gymraeg</u>**

Dyfynbris presennol o'r gost fesul ffenestr yw rhwng £1400 a £1900, gyda'r costau unigol yn amrywio ar sail gofynion pob ffenestr. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y costau terfynol yn is, gan fod nifer o ffenestri wedi gallu cael eu trwsio yn y fan a'r lle.

**<u>Atodol</u>**

Gofynnodd y Cynghorydd Bruce a fyddai'n ddoeth newid pob ffenestr fel opsiwn cyflymach a mwy effeithiol a fyddai'n para'n hirach.

£24,560 oedd y gyllideb ar gyfer y gwaith ffenestri cyfredol y Ysgol Gynradd y Rhws. Mae'n debygol fodd bynnag y bydd yr alldro'n nes at £20,000 - roedd y dyfynbris gwreiddiol yn cynnwys tynnu'r ffenestri allan, ond mae llawer ohonynt wedi gallu cael eu hadnewyddu yn y fan a'r lle.

Mae'r gwaith ailosod hwn yn rhan o raglen waith ar gyfer y Rhws sy'n cael ei chynnal fesul cam. Cafodd manyleb uwch ar gyfer y gwaith paentio yn y cam hwn o'r gwaith, oherwydd teimlwyd bod y camau adnewyddu blaenorol wedi colli graen. O ran

cymharu'r pris ar gyfer y cam hwn o'r gwaith, mae'r costau'n debyg iawn o ganiatáu ar gyfer rhannau lle ceir manyleb uwch a'r cynnydd mewn costau adeiladu.

(xviii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd R.R. Thomas**

Pa gymorth y mae'r Cyngor yn ei roi i breswylwyr â Chlefyd Niwronau Motor (MND) sydd angen addasiadau i'w cartref?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet Gofal Cymdeithasol ac Iechyd**

Mae'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl a gynigir gan y Cyngor yn cyfrannu at y gost o addasu cartrefi perchen-feddianwyr, landlordiaid a thenantiaid preifat, ar yr amod bod person anabl yn byw yno fel ei brif breswylfa. Mae'r Cyngor yn cynnig yr un gwasanaeth i holl breswylwyr y Fro ag anabledd y mae angen addasiadau fel hyn ar eu tai. Yn amodol ar asesiad Therapi Galwedigaethol, rhoddir statws blaenoriaeth uchel i rai unigolion â chyflyrau penodol. Mae hyn yn cyflymu'r broses atgyfeirio a gwneud cais.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Thomas beth allai'r Cyngor ei wneud i sicrhau nad oedd yn rhaid i'r rhai sy'n dioddef o glefyd niwronau motor wario symiau enfawr o arian, yn enwedig os nad ydynt yn gallu gweithio, ar addasiadau i'w cartref fel y gallant fyw gydag urddas.

Nid oedd yr Aelod Cabinet yn gallu gwneud sylw ar achosion penodol, ond roedd yn ymwybodol o'r broses a'r asesiad. Onid oedd unigolyn wedi gwneud cais am asesiad ac atgyfeiriad wedi'i wneud, ni allai'r Cyngor ei helpu. Gan gyfeirio at yr achos dan sylw gan y Cynghorydd Thomas, os oedd yr unigolyn eisoes wedi gwneud cais, gofynnodd yr Aelod Cabinet i'r Cynghorydd Thomas roi gwybod iddo a byddai'n mynd ar drywydd y mater. Mae'r Tîm Therapi Galwedigaethol (OT) o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn derbyn cyfeiriadau ac roedd y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion yn ymwybodol iawn o'r angen am ymateb brys ac amserol i bobl sydd wedi cael diagnosis o MND a byddent yn cynnal asesiad yn unol â hynny.

(xix) **Cwestiwn gan y Cynghorydd R.R. Thomas**

A wnaiff yr Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y costau sy'n gysylltiedig ag ehangu Ysgol y Deri?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg**

Cyfanswm cost y prosiect ar hyn o bryd yw £21.944m, gyda'r Cyngor yn cyfrannu swm sy'n gyfwerth â £5.058m ar sail y gyfradd ymyrraeth gyfredol. Mae datblygiad y cynllun yn amodol ar gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru.

**Atodol**

Gan gyfeirio at y cynnydd sydyn mewn costau sy'n gysylltiedig â'r prosiect hwn, gofynnodd y Cynghorydd Thomas beth oedd y cyfiawnhad dros y cynnydd sylweddol hwnnw.

Mae’r costau'n gysylltiedig ag Ehangu Ysgol Y Deri wedi cynyddu ers yr ymgynghoriad cyntaf ar y prosiect ym mis Tachwedd 2020.  Y gost a ragwelwyd yn wreiddiol oedd £11m. Cynyddodd hyn i £12.1m i roi cyfrif am gyhoeddiad Llywodraeth Cymru fod angen i bob ysgol newydd weithredu ar sail carbon sero net.  Ers y cynnydd cychwynnol yng nghost y cynllun, mae'r Cyngor wedi cyflwyno cais cynllunio llawn ac wedi cynhyrchu dyluniad manwl yn seiliedig ar yr arolygon safle perthnasol.  Yn sgil creu dyluniad manwl ar gyfer yr adeilad arfaethedig mae costau adeiladu'r prosiect wedi cynyddu.  Ar ben hynny, mae digwyddiadau byd-eang wedi effeithio'n sylweddol ar y sector adeiladu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys y pandemig a'r rhyfel yn Wcrain sydd wedi creu cynnydd dramatig ym  mhris deunyddiau adeiladu. Mae'r cynnydd mewn chwyddiant ac ail-ddyluniad y prosiect wedi achosi i gostau'r prosiect gynyddu i £21.944m.

Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn ystyried yr Achos Busnes Llawn ar gyfer y prosiect yn seiliedig ar y gost newydd a disgwylir penderfyniad yn gynnar ym mis Ionawr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg.  Y gyfradd ymyrryd ar gyfer y cynllun yw 75% wedi’i chyllido gan Lywodraeth Cymru a 25% wedi'i chyllido gan y Cyngor, gyda Llywodraeth Cymru'n cyllido 100% o'r mesurau carbon sero net sy'n gysylltiedig â'r prosiect.  Mae hyn yn cyfateb i £5.058m gan y Cyngor ar gyfer y cynllun. Roedd y cyllid ychwanegol gan y Cyngor i dalu'r costau ychwanegol wedi dod o'r rhaglen bresennol drwy aildrefnu cyfraddau ymyrraeth mewn cynlluniau eraill a newid cwmpas y rhaglen.

(xx) **Cwestiwn gan y Cynghorydd G.D.D. Carroll**

Pa gynnydd sy'n cael ei wneud o ran cyflawni Rhaglen Gyfalaf yr Awdurdod ar gyfer 2022/23.

**Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Cafwyd adroddiadau rheolaidd drwy gydol y flwyddyn ynghylch cyflawni Rhaglen Gyfalaf y Cyngor, a chafodd y rhain eu cyfeirio i sylw'r swyddogaeth Graffu - cafwyd adroddiad gennym ym mis Gorffennaf, Hydref a Tachwedd, a chyflwynir yr adroddiad nesaf ym mis Ionawr.

**Atodol**

Gan gyfeirio at y llithriant a adroddwyd o ran cyflawni prosiectau a'r ffaith bod y cyllid yn annhebygol o gael ei wario cyn diwedd y flwyddyn ariannol, holodd y Cynghorydd Carroll faint o brosiectau cyfalaf yr oedd yr Arweinydd yn disgwyl iddynt gael eu gohirio.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at yr amser yr oedd swyddogion yn ei dreulio ar broses pennu'r gyllideb, a dweud y byddai'r diweddaraf am y rhaglen gyfalaf yn cael ei ystyried ym mis Ionawr, ac y byddai hynny'n rhoi darlun llawnach.

(xxi) **<u>Cwestiwn gan y Cynghorydd G.D.D. Carroll</u>**

A wnaiff yr Arweinydd roi'r newyddion diweddaraf am gynllun Mannau Cynnes y Cyngor?

**<u>Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau</u>**

Diolch am eich cwestiwn, mae'n bleser gen i a'r Cynghorydd Carroll gael rhoi diweddariad.

Enw cynllun mannau cynnes y Cyngor yw Croeso Cynnes (Warm Welcome), ac mae'r manylion wedi'u dangos yn amlwg ar wefan y Cyngor yn rhan o'r wybodaeth a'r gefnogaeth a ddarperir ynghylch ystod o broblemau costau byw.  Mae'r wybodaeth yn cae lei rhannu'n eang gan y Cyngor a phartneriaid mewn ystod o fformatau.

Mae Croeso Cynnes yn rhan o'n gwaith i gefnogi preswylwyr yn ystod yr argyfwng costau byw, ac er bod y gwasanaeth yn werthfawr, byddai'n braf pe na bai arnom ei angen.  Dyma rwydwaith o fannau cymunedol sy'n cynnig lle cynnes a chroesawgar i ymgynnull yn rhad ac am ddim y gaeaf hwn. Cefais foment i'm sobri y diwrnod o'r blaen ar ôl dod ar draws hen wraig 91 oed a oedd yn ddryslyd ar y bws am 6:30pm. Roedd hi wedi bod i siopa i'r Barri i aros yn gynnes gan ei bod wedi cael ei chloi allan o'i thŷ.  Aeth hi adref yn y tywyllwch heb wybod lle yr oedd hi. Mae hyn felly'n hanfodol.

Ceir 26 o'r cyfleusterau hyn ar hyn o bryd sy'n cynnig croeso cynnes, ac sy'n cynnwys lleoliadau sy'n eiddo i'r Cyngor a lleoliadau eraill.  Mae Swyddogion y Cyngor yn parhau i weithio gyda grwpiau cymunedol ac eraill i nodi, cefnogi a hyrwyddo cyfleoedd pellach am groeso cynnes y gaeaf hwn.

Hoffwn achub ar y cyfle i ddiolch i'r grwpiau cymunedol a thimau'r Cyngor sydd wedi camu i'r adwy unwaith eto i helpu'r bobl fregus hyn, waeth pa mor drist yw'r ffaith ein bod yn gorfod gwneud hynny yn y DU yn 2022 .  Bydd adroddiad i'r Cabinet yn dilyn yn yr ychydig wythnosau nesaf ac ynddo wybodaeth bellach.

**<u>Atodol</u>**

Gan gydnabod pwysigrwydd y cynllun holodd y Cynghorydd Carroll am y 26 o leoedd a oedd wedi'u rhestru ar wefan y Cyngor ar hyn o bryd, gan nodi nad oedd amryw ohonynt ond ar gael am ychydig o oriau yr un.  Gofynnodd pa gamau oedd yn cael eu cymryd i gynyddu'r oriau a sicrhau bod y mannau hynny ar agor am gyfnodau hirach.

Dywedodd yr Arweinydd mai ond megis dechrau oedd y cynllun hwn, a bod 20 o fannau wedi'u nodi'n wreiddiol, gyda'r swm hwnnw bellach yn 26.  Byddai'n parhau i siarad ag unrhyw un a oedd yn gallu gweithio gyda'r Cyngor.  Byddai'r Cyngor hefyd

yn datblygu ei wasanaethau ei hun ac roedd gwaith cynllunio wedi dechrau ymhell cyn i'r Cyngor gael telerau ac amodau'r grant gan Lywodraeth Cymru.  Roedd y staff wedi ymateb ar unwaith.  Byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn fuan gyda gwybodaeth bellach.

(xxii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd G.D.D. Carroll**

A fydd y Cyngor yn gwneud gwaith gwella i godi'r uchafswm pwysau ar Bont Lecwydd?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu**

Gallaf eich sicrhau bod y Cyngor yn rheoli ac yn monitro’r sefyllfa mewn modd priodol er mwyn sicrhau diogelwch yr holl ddefnyddwyr.  Gallaf felly gadarnhau bod y Cyngor wedi bod yn cynnal cyfundrefn fonitro ar elfennau hollbwysig yn unol ag amserlen, ac yn fuan byddaf yn comisiynu Prif Arolygiad ac asesiad o'r strwythur gan ymgynghorwyr arbenigol.  Bydd y gwaith hwn yn digwydd yn y flwyddyn galendr newydd a rhagwelir y bydd adroddiadau ar gael yn ystod Gwanwyn 2022.  Bryd hynny, rhoddir ystyriaeth fanylach i unrhyw argymhellion neu gamau gweithredu angenrheidiol mewn perthynas â'r terfyn pwysau neu unrhyw agwedd arall ar y Strwythur.

**Atodol**

Cyfeiriodd y Cynghorydd Carroll at y cais am fferm solar y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar ei gyfer yn ddiweddar, ac at y terfyn pwysau presennol. Byddai hynny'n golygu y byddai'n rhaid i'r holl draffig presennol a thraffig y gwaith adeiladu deithio drwy Landochau, ac oherwydd y goblygiadau hyn, gofynnodd a fyddai'r Aelod Cabinet yn sicrhau bod gwaith uwchraddio'r bont yn cael ei drin fel blaenoriaeth.

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet at y ffaith mai'r terfyn pwysau presennol ar bont a thraphont Lecwydd oedd 7.5 tunnell. Roedd y terfyn hwn wedi'i orfodi i ddiogelu cyflwr y strwythur yn dilyn argymhellion mewn arolygiad strwythurol blaenorol ac asesiadau gan ymgynghorwyr flynyddoedd yn ôl i reoli'r terfyn pwysau hwn mor effeithiol ag a oedd yn bosibl. Roedd y Cyngor yn cysylltu â'r heddlu ynghylch gorfodi'r cyfyngiad pwysau dros strwythur y bont - yr heddlu yn unig oedd â'r grym i ymdrin â hyn. Yn ddiweddar roeddent wedi nodi'r gwelliannau angenrheidiol i'r arwyddion, ac roedd y gwaith hwn yn parhau.

(xxiii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd G.D.D. Carroll**

Pa gamau sy’n cael eu cymryd i frwydro yn erbyn baw ci ar draws Bro Morgannwg?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu**

Mae baw ci yn rhywbeth y gall Swyddogion Gorfodi'r Cyngor gymryd camau gorfodi yn ei gylch o dan y Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus - Rheoli Cŵn. Daeth y Gorchymyn hwn i rym ym mis Mawrth 2021 a bydd yn parhau hyd fis Mawrth 2024.

Os canfyddir rhywun nad yw'n codi baw ar ôl ci y mae ganddo reolaeth drosto, bydd yr unigolyn hwnnw'n torri'r Gorchymyn ac felly'n cyflawni trosedd.

Mae'r Gorchymyn cyfredol yn benodol i leoliad, yn hytrach na chyfeirio at unrhyw dir y mae gan y cyhoedd fynediad ato. Oherwydd hynny, nid ydym ond yn cael cyflwyno hysbysiadau cosb benodedig yn yr ardaloedd hynny sydd wedi'u rhestru ar atodlen y Gorchymyn. Fodd bynnag mae fy Nhîm Gorfodi yn cynnal rhawdiau rheolaidd o amgylch yr ardaloedd hynny lle nad yw'r Gorchymyn mewn grym, er mwyn addysgu pobl.

**Atodol**

Roedd y Cynghorydd Carroll yn deall bod Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus ar gyfer y Fro gyfan yn cael ei ystyried ar hyn o bryd, a gofynnodd i'r Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch pryd y byddai'r Gorchymyn hwnnw'n dod i rym er mwyn sicrhau y gellid cymryd camau gorfodi ym mhob ardal, gan gynnwys Heol Lewis yn Llandochau lle gwelwyd llawer iawn o faw ci dros yr wythnosau diwethaf.

Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai'n fodlon ymweld ag unrhyw ardal, gan gynnwys Heol Lewis. Atgoffodd y Cynghorydd Carroll ac Aelodau eraill ynghylch yr ymgyrch flynyddol o'r enw Ymgyrch Snoopy, a ddechreuodd yn 2021 ac a fydd yn dechrau eto ar 8Rhagfyr, 2022. Roedd yr ymgyrch hon yn mynd ati'n benodol i dargedu'r lleoliadau hynny lle cawsom wybodaeth am droseddu rheolaidd, ac yn cynnwys camau gorfodi gan gymysgedd o swyddogion gorfodi mewn iwnifform a dillad cyffredin. Pe canfyddid unrhyw un yn torri'r Gorchymyn, byddai'n derbyn hysbysiad cosb benodedig o £100 yn y fan a'r lle. Mewn ardaloedd eraill, byddai'r swyddogion gorfodi yn addysgu ac yn annog pobl i gydymffurfio.

(xxiv) **Cwestiwn gan y Cynghorydd C.A. Ogof**

Yn 2018 adroddodd y Cyngor fod y ganolfan ailgylchu bresennol yn Llandŵ yn: "hen ffasiwn, heb fod yn hawdd ei defnyddio ac yn gyfyngedig o ran capasiti, gyda phroblemau parhaus yn gysylltiedig â'r ffordd fynediad". Mae mynediad bron yn amhosibl mewn car teulu arferol.

A allai'r Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am Wasanaethau Cymdogaeth ddweud wrthym pam nad oes dim wedi newid?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu**

Rydym yn parhau i chwilio am dir fel bo modd adleoli'r Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref bresennol yn Llandŵ. Yn anffodus, ar hyn o bryd nid oes unrhyw opsiynau posibl o ran tir ar gael i'w brynu neu ei brydlesu sy'n bodloni gofynion y Rheoliadau Trwyddedu a Chynllunio Amgylcheddol, er i Swyddogion fynd ar drywydd nifer o opsiynau dros y 3 blynedd diwethaf.

Yn y flwyddyn newydd, gofynnir i Adain Ystadau'r Cyngor chwilio o'r newydd am safle arall, ac yn y cyfamser mae'r gwasanaeth yn bwriadu ymestyn y cytundeb ar y safle presennol am 2 flynedd arall.

**Atodol**

Cafodd y Cynghorydd Cave ei synnu gan ymateb yr Aelod Cabinet ac ystyried na fu unrhyw gynnydd dros y 4 blynedd diwethaf tuag at ddarparu canolfan ailgylchu hygyrch yng ngorllewin y Fro. Gofynnodd i'r Aelod Cabinet beth oedd yn mynd i'w wneud yn wahanol, er mwyn osgoi 5 mlynedd arall o fethiant gan y Cabinet Llafur yn gysylltiedig â hyn.

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet at y sylwadau a wnaeth yn ei ateb cynharach ac ailbwysleisio bod y Cyngor yn ymdrechu i chwilio am safleoedd eraill, a'i bod yn anodd cael hyd i'r safleoedd hynny. Gan hynny, byddai'r Cyngor yn parhau i ddefnyddio'r safle presennol.

(xxv) **Cwestiwn gan y Cynghorydd S.J. Haines**

Beth yw’r galw presennol gan breswylwyr mewn angen am dai Cyngor yn y Fro, a sut mae'r angen hwn wedi'i ddiffinio?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Dai'r Sector Cyhoeddus ac Ymgysylltu â Thenantiaid**

Ar hyn o bryd mae 5,445 o aelwydydd wedi'u cofrestru ar restr aros gyffredinol y Cyngor ar gyfer tai, Homes 4 U. Roedd cynllun Homes 4 U y Cyngor yn seiliedig ar bwyntiau ac yn rhannu'r rhai ar y rhestr aros i fandiau yn seiliedig ar eu hangen - Aur Uwch, Aur, Arian ac Efydd. Byddai swyddogion tai yn cynnal asesiadau er mwyn canfod beth oedd yr angen, a oedd yn seiliedig ar nifer o ffactorau, gan gynnwys rhai mewn llety dros dro, digartrefedd ar ôl i landlord droi preswylwyr allan, digartrefedd oherwydd anawsterau gyda'r morgais a thlodi plant.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Haines a oedd yr anghenion hynny'n cael eu trosglwyddo i swyddogion sy'n gweithio ar y CDLl, swyddogion cynllunio ac i'r Pwyllgor Cynllunio i'w cynorthwyo i wneud eu penderfyniadau.

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet fod hynny'n digwydd.

(xxvi) **Cwestiwn gan y Cynghorydd S.J. Haines**

Pryd fydd ail elfen yr astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer gorsaf drenau Sain Tathan yn cael ei chynnal?

**Ymateb gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Leoedd Cynaliadwy**

Nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i gynnal astudiaethau dichonoldeb o'r angen am orsaf drenau newydd yn Sain Tathan.

**Atodol**

Cyfeiriodd y Cynghorydd Haines at y ffaith mai hon fyddai ail ran yr astudiaeth ddichonoldeb na fyddai'n cael ei chynnal, a holodd a oedd gan yr Aelod Cabinet unrhyw gynlluniau trafnidiaeth gyhoeddus i wneud iawn am y cynnydd mewn traffig oherwydd datblygiadau Bro Tathan a safle ynni Aberddawan.

Nid oedd yr Aelod Cabinet yn gallu rhoi cadarnhad o hynny. Dywedodd y byddai'n hapus i gwrdd â'r Aelod a'r Aelod Ward arall lleol i drafod y mater. Pe bai'r Cynghorydd yn meddwl y byddai hynny o unrhyw fudd, gofynnodd iddo gysylltu â hi drwy e-bost i drefnu cyfarfod.

(xxvii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd S.J. Haines**

Pa gamau y mae'r Awdurdod yn eu cymryd i fynd i'r afael â lleithder a llwydni yn ei stoc o dai Cyngor?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu**

Mae gan y Cyngor weithdrefnau i ymchwilio a datrys achosion o leithder a llwydni yn ei eiddo Cyngor. Bydd yr holl bryderon am leithder a llwydni a godir gan denantiaid yn arwain at archwiliad i ddechrau, cyn gwneud gwaith ymatebol fel bo'n briodol; gall hyn amrywio rhwng rhoi cyngor i denantiaid, trin y llwydni, newid neu osod cyfarpar echdynnu newydd, a chysylltu ag arbenigwyr i gael cyngor a gwneud gwaith mwy arbenigol.

**Atodol**

Gan ddweud mai preswylydd pryderus a oedd wedi achosi iddo godi'r cwestiwn atodol, holodd y Cynghorydd Haines a oedd unrhyw gysylltiad rhwng y cynnydd diweddar mewn llwydni yn eiddo'r preswylydd a'r cladin a osodwyd ar yr eiddo yn SainTathan.

Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai'n gofyn i swyddogion ymchwilio i hyn ac yn rhoi ateb mewn ysgrifen.

(xxviii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd N.J. Wood**

A wnaiff yr Arweinydd gadarnhau cyfanswm y gost hyd yma o gyflwyno gwasanaeth TGCh Oracle Cloud?

**Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Cost gyfredol gweithredu'r gwasanaeth hyd yma, a ddisgrifir yn yr adroddiad monitro refeniw ac yn adroddiad y Cabinet ar 29 Medi, yw oddeutu £3.9m.

**Atodol**

Gan gyfeirio at y gorwariant sylweddol, gofynnodd y Cynghorydd Wood a oedd gan yr Arweinydd unrhyw gynlluniau i gynnal adolygiad ar ôl cwblhau'r prosiect i nodi gwersi y gellid eu dysgu i lywio prosiectau TG yn y dyfodol.

Cadarnhaodd yr Arweinydd y gofynnwyd am adroddiad eisoes gan y Pwyllgor Archwilio Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol ar y gwersi a ddysgwyd, a fyddai'n cael ei gyflwyno maes o law.

(xxix) **Cwestiwn gan y Cynghorydd M.J. Hooper**

Yn y Cyngor Llawn ar y 26 Medi 2022, gofynnais gwestiwn ynghylch y datrysiad(au) a gynigiwyd gan y Cyngor i orfodi'r consortiwm o ddatblygwyr (a'u hasiantwyr) ar Lannau'r Barri i gyflawni eu rhwymedigaethau o ran y seilwaith ffyrdd a phalmentydd fel bo modd i'r Cyngor eu mabwysiadu, a darparu mannau agored cyhoeddus, fel y manylwyd yn y caniatâd cynllunio.

A ellir cael y newyddion diweddaraf am hyn?

**Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Rwy’n ymwybodol bod y Cynghorydd Hooper wedi bod mewn cysylltiad â’r Tîm Gorfodaeth Cynllunio ynglŷn â darparu mannau agored yn y datblygiad a’i fod wedi cael diweddariad ar 21 Tachwedd ynghylch yr achos gorfodi parhaus yn gysylltiedig â'r mannau agored cyhoeddus a oedd heb eu cwblhau ar Lannau'r Barri.

Dywedwyd bryd hynny fod y Cyngor wedi bod yn canlyn achos cyfreithiol yn erbyn y Consortiwm, er mwyn sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar gwblhau'r mannau agored a oedd heb eu gorffen.  Roedd y Cyngor wedi cymryd camau cyfreithiol yn flaenorol, a bu'n rhaid iddo ddewis pryd i wneud hynny.  Fodd bynnag, mae Cwnsler wedi cynghori y dylid gweithredu'r cymal datrys anghydfod yn y cytundeb cyfreithiol yn llawn, cyn cymryd camau cyfreithiol ffurfiol.  Ni chafwyd unrhyw ddiweddariad pellach yn y pythefnos ers ichi gael y diweddariad diwethaf.

Mae tîm cyfreithiol y Cyngor yn dal i ymgynghori â'r Cwnsler, i ganfod y ffordd orau o geisio datrys yr anghydfod, yn unol â'r cymal perthnasol.

(xxx) **Cwestiwn gan y Cynghorydd M.J. Hooper**

Yng y Cyfarfod Cabinet Rhanbarthol ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar 28 Tachwedd, cyflwynwyd papur yn esbonio cynlluniau'r Brifddinas-Ranbarth i gymryd rhan yn MIPIM 2023. Ystyrir mai dyma'r gynhadledd eiddo fwyaf blaenllaw yn y byd (yn ôl y trefnwyr).  Fe'i cynhelir dros 4 diwrnod yn Cannes, Ffrainc yng Ngwanwyn 2023.

A allai'r Arweinydd egluro sut, yng nghanol argyfwng costau byw, y mae'n briodol i'r Brifddinas-Ranbarth fod yn bresennol?

**Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Yn amlwg, mewn achosion fel hyn mae angen taro cydbwysedd rhwng hyrwyddo'r rhanbarth a'r angen i fod yn ddarbodus wrth wario arian cyhoeddus. Dylid pennu amcanion clir ar gyfer gweithgarwch a gallaf sicrhau'r Cynghorydd Hooper bod hyn wedi'i drafod yn ddiweddar wrth drafod presenoldeb y rhanbarth yn MIPIM yng nghyfarfod Cabinet y Prifddinas-Ranbarth.

Mae angen inni hyrwyddo'r rhanbarth yn rhyngwladol i sicrhau buddsoddiad mewn swyddi o ansawdd da er budd ein trigolion a'n cymunedau. Mae presenoldeb y rhanbarth yn MIPIM yn hanfodol i hyrwyddo'r cyfleoedd economaidd sy'n bodoli ar draws y Fro a'r rhanbarth ehangach. Mae angen inni hyrwyddo ein rhanbarth yn rhyngwladol i sicrhau buddsoddiad mewn swyddi o ansawdd da er budd ein trigolion a'n cymunedau. Mae presenoldeb y rhanbarth yn MIPIN yn hanfodol er mwyn hyrwyddo'r cyfleoedd economaidd sy'n bodoli ar draws y Fro a'r rhanbarth ehangach. Er hynny, ni fyddwn yn bresennol naill ai ar lefel swyddog na lefel Aelod.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Hooper a oedd hynny'n golygu na fyddai'r Cyngor yn anfon swyddogion.

Cadarnhaodd yr Arweinydd na fyddai'r Cyngor yn bresennol yn y digwyddiad.

(xxxi) **Cwestiwn gan y Cynghorydd M.J. Hooper**

Mae Adeiladu Cyfoeth Cymunedol (ACC) yn cael ei fabwysiadu fwyfwy gan Gynghorau ledled y DU fel ateb i arferion corfforaethol echdynnol. Ystyrir 'Model Preston' fel yr enghraifft i'w dilyn, lle bo sefydliadau cyhoeddus a pherchnogion seilwaith cyhoeddus eraill yn cyfuno eu grym economaidd er budd hirdymor preswylwyr lleol, gan geisio atal sefyllfa lle caiff cyfoeth ei dynnu ymaith oddi tanynt.

Beth yw safbwynt y Cyngor ynghylch datblygu ymagwedd at ddatblygu economaidd sy'n seiliedig ar Adeiladu Cyfoeth Cymunedol?

**Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet Perfformiad Corfforaethol**

Mae Adeiladu Cyfoeth Cymunedol yn un model posibl, ond mae cylch gwaith cyngor dinas Lloegr yn wahanol i'n cylch gwaith ni. Er enghraifft, rwy'n deall nad oes ganddynt gyfrifoldeb dros addysg na gofal cymdeithasol, sydd i gyfrif am oddeutu dri chwarter ein cyllideb ni.

Ers 2012 mae'r Cyngor wedi mabwysiadu dull rhagweithiol o ddatblygu'r economi a chymunedau lleol. Rydym yn ei alw'n Ddull Adfywio Tref Gyfan, sy'n ddull cyfannol a

chynaliadwy, ac sy'n golygu mai'r bobl a'r lle sydd wrth wraidd y gwaith sy'n rhychwantu portffolios y Cabinet. Mae'n cynnwys tai ac addysg i'r un graddau â chynllunio a datblygu'r economi.

Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu a chyflawni cynlluniau ac yn defnyddio caffael yn gysylltiedig â phrosiectau mawr i sicrhau canlyniadau sy'n denu gwobrau am eu buddion cymunedol. Ond rydym am wneud llawer mwy, mae Polisi a Strategaeth Caffael ddiwygiedig cael eu cyflwyno i'r Cabinet yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

(xxxii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd M.J. Hooper**

Sefydlodd Llywodraeth y DU gynllun 'Kickstart' i helpu pobl ifanc 16-24 oed, sy'n derbyn Credyd Cynhwysol, i gael lleoliad gwaith chwe mis gyda thâl. Roedd costau'r cynllun wedi'u cyllido'n llawn ac roedd y cyflogwr yn derbyn taliad untro o £1,500 am bob swydd a oedd yn cael ei chreu. Roedd y cynllun yn rhan o ymateb Llywodraeth y DU i Covid-19.

Roedd yn rhaid i'r swyddi fod yn swyddi newydd a thros 25 awr yr wythnos. Roedd y cyllid yn talu costau'r isafswm cyflog cenedlaethol a chostau cyflogi cysylltiedig. Yn ôl y canllawiau gan Lywodraeth y DU:

"Ar gyfer pob swydd mae'n rhaid i chi helpu'r person ifanc i ddod yn fwy cyflogadwy. Gallai hyn gynnwys:

- chwilio am waith hir dymor, gan gynnwys cyngor gyrfa a gosod nodau
- cefnogaeth gyda curriculum vitae (CV) a pharatoi am gyfweliadau
- datblygu eu sgiliau yn y gweithle."

Mae'r cynllun bellach wedi dod i ben.

Tybed a all yr Arweinydd gadarnhau:

- Faint o leoliadau kickstart a grëwyd gan y Cyngor?
- Faint o'r lleoliadau hynny a gafodd eu llenwi?
- O'r rolau hynny a gyrhaeddodd ddiwedd y cyfnod o chwe mis, faint o ddeiliaid y lleoliadau hyn sydd wedi canfod rôl a) ym Mro Morgannwg, neu b) yn rhywle arall
- A yw'r Cyngor yn darparu unrhyw gefnogaeth ddilynol i'r unigolion hyn ar ôl y cynllun, ac os felly, beth yw'r gefnogaeth honno?

**Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

- Faint o leoliadau kickstart a grëwyd gan y Cyngor?
  - Cafodd 97 o swyddi gwag eu creu

- Faint o'r lleoliadau hynny a gafodd eu llenwi?
  - Cafodd 59 o swyddi eu llenwi

- O'r rolau hynny a gyrhaeddodd ddiwedd y cyfnod o chwe mis, faint o ddeiliaid y lleoliadau hyn sydd wedi canfod rôl ...

    - Y Mro Morgannwg:
        - Mae 5 yn dal i gael eu cyflogi gan y Fro, 3 fel prentisiaid, ond mae rhai o'r deiliaid eraill wedi aros ond wedi cael eu cyflogi drwy gontractau asiantaeth, felly mae'n anodd eu holrhain a'u monitro.

    - Yn rhywle arall?
        - Nid ydym wedi gallu cadw data gan y rhai a adawodd, nac am y rolau y maent wedi symud iddynt.

- A yw'r Cyngor yn darparu unrhyw gefnogaeth ddilynol i'r unigolion hyn ar ôl y cynllun, ac os felly, beth yw'r gefnogaeth honno?
    - Tra byddant yn parhau i gael eu cyflogi gan y Cyngor, boed hynny fel staff y sefydliad neu'r asiantaeth, byddant yn derbyn y gefnogaeth a'r cyfleoedd datblygu sydd ar gael i'r holl staff.
    - Yn anffodus, nid oes gennym yr adnoddau i allu rhoi cymorth estynedig i unigolion sydd wedi gadael ein cyflogaeth, ond hoffem dynnu sylw at waith rhagorol y tîm Dysgu Oedolion sydd wedi rhoi cefnogaeth i'r unigolion hynny.

(xxxiii) **<u>Cwestiwn gan y Cynghorydd M.J. Hooper</u>**

Ddydd Gwener 25 Tachwedd, yn Llys y Goron Casnewydd, cafwyd cyn-Gynghorydd ac Aelod Cabinet y Fro, Tony Hampton, yn euog o 12 cyhuddiad o ymosod yn anweddus. Mae wedi cael ei gadw yn y ddalfa a disgwylir y bydd yn cael ei ddedfrydu ar 19 Rhagfyr 2022.

Mae gwasanaethu fel Cynghorydd yn swydd lle mae'r gymuned yn ymddiried ynoch. Pan fydd Cynghorydd yn cael ei ddewis gan ei gymheiriaid i ddal swydd lefel uwch, mae eu cefnogaeth yn cynyddu'r ymddiriedaeth honno.

Bu Mr. Hampton yn gwasanaethu fel Aelod Cabinet dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, ac fe'i dewiswyd hefyd i gynrychioli'r Cyngor ar Fwrdd CBAC (Bwrdd y bu'n treulio cryn amser yn ei gadeirio). Gellid dadlau fod ei gymheiriaid wedi cefnogi ei enw da fel rhywun y gellid ymddiried ynddo.

Dangosai ymchwiliadau amrywiol Saville fod troseddwyr rhyw helwriaethol yn aml yn cael eu gwarchod gan sefydliadau a'r rhai sy'n gweithio yn y sefydliadau hynny. Roedd adroddiad y Fonesig Janet Smith i'r BBC yn arbennig o addysgiadol. Canfu dystiolaeth fod diwylliant y sefydliad wedi atal adroddiadau cynharach am yr unigolyn oherwydd grym ei statws, a'r ffaith ei fod yn ymddangos yn anorchfygol. Gwnaed hynny er gwaethaf sawl achos lle'r oedd unigolion yn ymwybodol o'i ymddygiad, neu'n pryderu ynghylch ei ymddygiad.

A all y Cyngor hwn roi sicrwydd nad yw'r sefydliad hwn, yn benodol drwy swyddogion (y rhai sy'n parhau yn eu swyddi a'r rhai a allai fod wedi gadael) a thrwy Gynghorwyr

(unwaith eto'r rhai a allai fod yn dal yn eu swyddi, a'r rhai nad ydynt) wedi amddiffyn Hampton yn fwriadol, neu, yn hollbwysig, wedi anwybyddu pryderon am ei addasrwydd i'r swyddi fu ganddo? Ar ben hynny, a all y Cyngor fod yn sicr na wnaeth y swyddi y cafodd Hampton eu dyrchafu iddynt olygu bod perygl i eraill ddioddef ei ymddygiad helwriaethol?

**Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Mae'r cwestiwn hwn wedi fy siomi'n aruthrol. Hyd yn oed fel Aelod newydd, dylai'r Cynghorydd Hooper fod yn ymwybodol o'r modd y dewisir ymgeiswyr i sefyll, a'r broses ar gyfer penodi i swyddi gwleidyddol. Nid fi yw Arweinydd y Grŵp Ceidwadol, ac nid wyf erioed wedi cyflawni'r rôl honno. Efallai mai'r peth gorau fyddai cyfeirio'r cwestiwn i sylw'r Arweinydd y
Grŵp hwnnw neu gyn-arweinwyr y Grŵp hwnnw, gan mai'r aelodau hynny a fyddai wedi sefydlu eu Cabinetau eu hunain ac aelodaeth o unrhyw Bwyllgorau a chynrychiolaeth allanol.

Er hynny, os oes gan unrhyw un bryderon penodol ynghylch y materion rydych chi'n eu codi, gallant gysylltu â mi, y Prif Weithredwr neu Swyddog Monitro'r Cyngor.

**Atodol**

Gan gydnabod natur sensitif y mater, cyfeiriodd y Cynghorydd Hooper at ganlyniad Ymchwiliad Saville, a gofynnodd a wnaeth y Cyngor, fel sefydliad, warchod y cyn-Gynghorydd Hampton, a gofynnodd i'r Arweinydd a oedd yn barod i gynnal ymchwiliad?

Roedd yr Arweinydd yn ystyried y cwestiwn yn un anodd i'w ateb gan fenyw, yn enwedig gan ei bod wedi adrodd am ymddygiad gwrthgymdeithasol gan ddynion ar ddau achlysur blaenorol. Er iddi adrodd am y digwyddiadau'n gyfrinachol ar y ddau achlysur, cafodd wedyn ei beirniadu'n hallt yn y cyfryngau lleol. Roedd hi'n teimlo'n angerddol am achosion o'r fath. Atgoffodd y Cynghorydd Hooper y rhagdybiaeth fod pawb yn y wlad hon yn ddieuog nes cael eu profi'n euog.

Cyn gynted ag yr oedd cyhuddiadau wedi'u dwyn, cafodd y Cynghorydd Hampton ei atal o Grŵp Ceidwadwyr Bro Morgannwg gan Arweinydd y Cyngor ar y pryd. Nid oedd yn ymwybodol o unrhyw honiadau a oedd yn wedi'u gwneud cyn hynny, ond atgoffodd yr Aelodau pe baent yn dod ar draws unrhyw awgrym o ddrwgweithredu mai eu cyfrifoldeb hwy fyddai adrodd am hynny, o dan y Cod Ymddygiad.

Ysgrifennodd Swyddog Monitro'r Cyngor yn ffurfiol at yr Ombwdsmon ar y mater a chyhoeddodd y Cyngor ddatganiad i'r wasg yn enw'r Swyddog Monitro. Cyfeiriodd yr Arweinydd ar y pryd y mater i sylw'r Blaid Geidwadol, a hysbysodd y Grŵp cyfan a hefyd Arweinwyr y Grwpiau eraill ynghylch safbwynt a fabwysiadwyd a'r camau a gymerwyd. Cafodd Clerc Cyngor Tref y Barri hefyd wybod am hyn.

Cyfeiriodd at un o'r prosesau yr oedd hi wedi bod eisiau ei chyflwyno ers amser maith, ac a gyflwynwyd yn llwyddiannus cyn yr etholiadau diwethaf, sef bod yn rhaid i bob Cynghorydd dderbyn gwiriad DBS a bod unrhyw Gynghorydd mewn unrhyw swydd

uwch yn derbyn gwiriad DBS manylach. Hyd y gwyddai, roedd pob un o'r Cynghorwyr, ac eithrio 6, naill ai wedi cwblhau neu fwy neu lai wedi cwblhau gwiriadau DBS. Roedd hi'n gobeithio y byddai'r 6 arall yn dilyn y broses yn o gyflym.

Dywedodd wrth y Cynghorydd Hooper fod croeso iddo ysgrifennu at y Swyddog Monitro i esbonio'n fanwl pam ei fod o'r farn fod angen cynnal Ymchwiliad. Yn ôl yr hyn yr oedd hi'n ei ddeall, nid oedd cyswllt rhwng yr un achos â'r Cyngor. Er ei bod yn croesawu bod pawb yn cael eu dwyn i gyfrif am unrhyw ddrwgweithredu, nid oedd o'r farn y byddai cynnal Ymchwiliad o unrhyw fudd i'r Cyngor hwn, nac i ddioddefwyr y cyn-Gynghorydd Hampton.

(xxxiv) **Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry**

Mae hi'n ddyletswydd statudol ar Gyngor y Fro i sicrhau bod dogfennau'r Cyngor yn hygyrch. Fel Cynghorydd Cymuned, rwyf wedi bod yn bresennol mewn amrywiaeth o weithdai yn y Swyddfeydd Dinesig, lle'r wyf wedi cyfeirio at hygyrchedd dogfennau, ac wedi mynd ar drywydd y mater drwy e-bost.

Nid yw Cyngor y Fro yn bodloni'r gofynion sylfaenol er mwyn sicrhau bod dogfen yn hygyrch. Er enghraifft, nid oes teitl ar ddogfen yr Hunanasesiad, ac nid yw'n cynnwys disgrifiadau amgen, bocsys o amgylch y testun, metadata ac ati. Ceir methiannau eraill o ran hygyrchedd yn gysylltiedig â dogfennau eraill, gan gynnwys Cynllun Her Prosiect Sero.

Rwyf wedi codi hygyrchedd dogfennau mewn sawl gweithdy ac wedi mynd ar drywydd hyn mewn e-bost yn 2021.

Pryd fydd Cyngor y Fro yn ymdrechu i sicrhau bod pob dogfen PDF yn gwbl hygyrch?

**Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi sefydlu Canllawiau Iaith Glir ac Arddull ers blynyddoedd. Mae'r canllawiau ar gael i'r staff gyfeirio atynt ar StaffNet.
Mae’r canllaw yn trafod:

- Canllaw Iaith Glir ac Arddull
- Iaith Glir ar y Wefan
- Geiriadur Iaith Glir
- Canllaw ar Atalnodi
- Canllaw Arddull
- Canllaw Gramadeg
- Osgoi Lladin
- Osgoi Dweud yr Un Peth Ddwywaith
- Cyhoeddiadau Hawdd eu Gweld
- Geiriau sy'n Aml Achosi Dryswch.

Gellir defnyddio'r canllawiau hyn ar gyfer dogfennau o bob math.

Yn gynharach eleni, rhannwyd gwybodaeth gennym am greu Dogfennau hygyrch (valeofglamorgan.gov.uk) i'r staff hynny sy'n creu cynnwys ar gyfer y we. Mae'r wybodaeth hon wedi cael ei hyrwyddo ymhlith ein rhwydwaith o olygwyr CMS drwy fwletin golygu'r we misol a anfonir at yr holl staff.

Mae'r Tîm Cyfathrebu bellach yn adolygu dogfennau a gyflwynir i'w cymeradwyo i'w cyhoeddi, yn rhan o ymgyrch i sicrhau mwy o gysondeb a hygyrchedd.

Hoffwn ddiolch i'r Cynghorydd Perry am godi'r mater pwysig hwn a gallaf eich sicrhau ein bod yn rhoi blaenoriaeth i hyn, yn enwedig yn achos dogfennau corfforaethol o bwys.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Perry i'r Arweinydd a fyddai'n edrych eto ar hygyrchedd dogfennau PDF ac yn rhoi hyfforddiant i swyddogion sy'n cyhoeddi dogfennau i'w darllen gan y cyhoedd, a bod y dogfennau hynny'n gwbl hygyrch i ddarllenwyr sgrin.

Dywedodd yr Arweinydd y byddai'n gofyn i swyddogion o Dîm Cyfathrebu'r Cyngor gysylltu ag ef i drafod y mater.

(xxxv) **Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N Perry**

Amcangyfrifir bod tua 27,000 o anheddau gwag yng Nghymru, a bod 7,498 o deuluoedd mewn llety dros dro. Faint o anheddau y mae taer angen amdanynt sy'n eiddo i Gyngor Bro Morgannwg ac sydd wedi bod yn wag ers isafswm o 1 mis, 3 mis; 6-mis; 3 blynedd a phryd oedd gan yr annedd sy'n eiddo i'r Cyngor sydd wedi bod yn wag am yr amser hiraf denant yn byw ynddo ddiwethaf?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Dai'r Sector Cyhoeddus ac Ymgysylltu â Thenantiaid**

Eiddo gwag yn wag am o leiaf 1 mis: 9
O leiaf 3 mis: 1
O leiaf 6 mis: 11
O leiaf 3 blynedd: 4

Mae'r eiddo sydd wedi bod yn wag am y cyfnod hiraf wedi bod yn wag ers 19 Ebrill 2015.

**Atodol**

Gan gyfeirio at nifer y cartrefi a oedd wedi bod yn wag am gyfnod hwy na chwe mis, gofynnodd y Cynghorydd Perry ai'r rheswm am hynny oedd bod cyfyngiadau ariannol yn effeithio ar gyllidebau cynnal a chadw.

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet fod y cartrefi a oedd wedi bod yn wag ers cyfnod hir yn wag am amrywiaeth o resymau, ac roedd a wnelo mwyafrif y rhain â'r ffaith bod angen

gwneud gwaith atgyweirio helaeth a chostus a chynnal arfarniad technegol. Bu oedi gyda rhai prosiectau oherwydd effeithiau'r pandemig, ac roedd arfarniad hyfywedd wedi cael ei gynnal ar nifer llai ohonynt. Rydym wedi gorfod aildendro contractau ar gyfer y mwyafrif ohonynt oherwydd yr achosion hynny o oedi, ac oherwydd problemau'n gysylltiedig â chostau cynyddol a'r ffaith nad oedd contractwyr yn gallu cadw at eu prisiau. Canlyniad hyn fydd gorfod aildendro a gwerthuso'r gwaith, a'r gyllideb sydd ar gael. Ac ystyried yr argyfwng tai presennol, mae nifer fach o gartrefi a fyddai o bosib wedi cael eu gwaredu oherwydd cyfyngiadau ar gostau, bellach wedi'u hailddylunio i gynyddu nifer y cartrefi sydd ar gael. Mae angen gwaith sylweddol ar yr eiddo unigol hwnnw.

(xxxvi) **Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N Perry**

Ac ystyried y prinder tai, beth fyddwn yn ei wneud i sicrhau bod cymaint â phosib o eiddo Cyngor wedi'i feddiannu yn 2023 ac ar ôl hynny?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Dai'r Sector Cyhoeddus ac Ymgysylltu â Thenantiaid**

Ar hyn o bryd, yr amser cyfartalog a gymerir i lenwi eiddo gwag arferol yw 22 diwrnod calendr, sydd ynghynt na llawer o landlordiaid cymdeithasol tebyg yng Nghymru. O ran meddiannaeth, ceir cyfanswm o 25 o gartrefi gwag, sy'n gyfystyr â chyfradd meddiannaeth o 99.4%.

Nid yw'r Cyngor yn ei chael hi'n anodd rhoi anheddau ar osod o gwbl, ac mae'n ymdrechu i osod eiddo o'r newydd ar y cyfle cyntaf.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Perry pa gyfran oedd yn symud i gartrefi eraill sy'n eiddo i Gyngor Bro Morgannwg?

Gan nad oedd gan yr Aelod Cabinet yr wybodaeth hon o fewn cyrraedd, dywedodd y byddai'n anfon ateb ysgrifenedig at y Cynghorydd Perry.

(xxxvii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry**

Mae mynd i'r afael â sŵn ffyrdd a gwella seinweddau yn cyfrannu at gyflawni pob un o'r saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae sŵn ffyrdd yn effeithio ar iechyd a llesiant pobl a bywyd gwyllt. Mewn llawer o astudiaethau, gwelwyd cydberthynas glir rhwng lefel sŵn ffyrdd a geir yn y cartref ac achosion o salwch difrifol, yn ogystal â datblygiad plant - yn enwedig eu cof a'u gallu i ganolbwyntio.

Yn 2012, nododd Llywodraeth Cymru ffyrdd penodol yn y Barri, yr A48 drwy Dresimwn, a Sain Nicolas a'r A4050 ger Gwenfô fel Ardaloedd â Blaenoriaeth o ran gweithredu i leihau sŵn ffyrdd. Yn 2017, ychwanegwyd Heol Caerdydd yn Ninas Powys at y rhestr.

Mae'n siomedig nad yw'n ymddangos fel pe bai iechyd a llesiant preswylwyr yn gysylltiedig â Sŵn Ffyrdd yn cael ei ystyried wrth i Gyngor Bro Morgannwg wneud penderfyniadau'n gysylltiedig â phriffyrdd, gan gynnwys ailwynebu, pennu terfynau cyflymder ac adeiladu ffyrdd - a datblygiadau sy'n cynyddu dwysedd traffig.

Mae preswylwyr wedi gweld degawd o ddiffyg gweithredu lle'r oedd angen rhoi'r flaenoriaeth i weithredu. A fydd preswylwyr yn gweld newid yn 2023, ac a fydd eu hiechyd a'u llesiant wrth graidd unrhyw benderfyniadau a wneir?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet Gofal Cymdeithasol ac Iechyd**

Rwy'n ymwybodol bod eich pryderon ynghylch sŵn mewn perthynas â Sain Nicolas a Thresimwn wedi'u hystyried a'u datrys mewn gohebiaeth flaenorol â Swyddogion y Cyngor. Rwy’n cydnabod y pryderon iechyd cyhoeddus sy’n gysylltiedig â sŵn traffig a ffyrdd yn genedlaethol. Gallaf gadarnhau fy mod yn ymwybodol o Gynllun Gweithredu Sŵn a Seinwedd Llywodraeth Cymru (2018-2023) ac er bod gan y ddogfen hon statws cyfreithiol a bod y Cyngor yn rhoi sylw priodol i’r gofynion a’r cyfrifoldebau penodol o fewn y ddogfen, y gwir yw nad oes unrhyw ofyniad cyfreithiol penodol i Awdurdodau Lleol gymryd camau i leihau sŵn ffyrdd.

Fodd bynnag, mae’r ddogfen yn cyfleu'n glir y dylai cyrff cyhoeddus ystyried sŵn fel ffactor wrth drafod llesiant. Gan hynny, hoffwn eich sicrhau y bydd unrhyw waith ailwynebu priffyrdd a dybir yn angenrheidiol, ac sydd wedi'i gynnwys yng nghynllun tair blynedd Ailwynebu Priffyrdd y Cyngor yn cynnwys ystyriaeth o'r defnydd o ddeunyddiau â manyleb briodol, er mwyn lleihau effaith bosibl sŵn ffyrdd ar gymunedau lleol hyd yr eithaf.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Perry, wrth i swyddogion greu cynlluniau ailwynebu priffyrdd yn y dyfodol, eu bod yn ystyried yr holl sŵn yn gysylltiedig â ffyrdd, fel nad yw hynny'n cael effaith niweidiol ar breswylwyr y Fro.

Awgrymodd yr Aelod Cabinet fod y Cynghorydd Perry eisoes wedi dod i'r farn nad oedd cynlluniau cyfredol eisoes wedi ystyried materion o'r fath. Roedd swyddogion yn ystyried materion fel newidiadau deddfwriaethol cyn cyflawni unrhyw waith, ac roedd yn sicr y byddai swyddogion yn rhoi sylw i unrhyw faterion penodol ac yn ymchwilio i'r rheiny.

(xxxviii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry**

Mae’r Ddeddf Teithio Llesol yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau ffyrdd newydd (gan gynnwys cynlluniau gwella ffyrdd) ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr yn y cam dylunio. Rhaid i Awdurdodau Lleol wella cyfleusterau a llwybrau i gerddwyr a beicwyr yn barhaus.

Mae’n debyg bod gwaith gwerth £26m i sythu a gwastatáu Lôn Pum Milltir wedi dinistrio Fila Rufeinig Whitton Lodge a heb ddarparu seilwaith ar gyfer Teithio Llesol a oedd yn cydymffurfio â safonau Llywodraeth Cymru. Nid oedd cyfle i’r cyhoedd graffu

arnynt, oherwydd mae'n debyg na chafodd y lluniadau terfynol eu cymeradwyo tan y diwrnod cyn i'r ffordd agor - a dyna pryd y cefais i, wedi hirymaros, gopi ohonynt

Cafodd y llwybr Teithio Llesol rhwng Tre-walter a Dyffryn (Tre-walter a Chroes Cwrlwys) ei dorri'n anghyfreithlon. Codwyd hyn gan sawl preswylydd yn yr ymgynghoriad ar y Map Teithio Llesol newydd. Nid oes neb am dderbyn cyfrifoldeb am y cam hwn. Er codi ffensys, plannu cloddiau a phalu ffosydd, mae pobl sy'n cerdded, yn beicio ac ar gefn ceffylau, y parhau i gymryd y llwybr uniongyrchol - ac mae preswylydd wedi mynd ati ohono'i hun i sgubo'r darn o ffordd ar wahân, er mwyn iddo fod yn ddiogel i draed ceffylau.

A wnaiff y Cyngor bellach dderbyn cyfrifoldeb, a gweithredu i ailosod y llwybr uniongyrchol o'r dwyrain i'r gorllewin i bobl sy'n cerdded, yn beicio ac yn marchogaeth?

**Ymateb gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Leoedd Cynaliadwy**

Cynhaliwyd Ymchwiliad Cyhoeddus i'r gwaith gwella a gyflawnwyd ar hyd y Lôn Pum Milltir. Cadarnhawyd yn yr ymchwiliad, er bod y llwybr yn cynnig seilwaith ar gyfer beiciau, nad oedd yn ofynnol ar y pryd iddo fod yn llwybr Teithio Llesol.

Ni chafodd y lonydd rhwng Dyffryn a Thre-walter eu cynnwys ar Fap Rhwydwaith Integredig Bro Morgannwg 2017 ac nid ydynt ar hyn o bryd wedi'u nodi'n llwybrau teithio llesol ar y Map Rhwydwaith Teithio Llesol a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2022, felly ni ellir defnyddio cyllid teithio llesol i wneud unrhyw welliannau i'r adran hon.

(xxxix)**Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry**

Cafodd y gwaith uwchraddio gwerth £26m ar yr A4226 ei gymeradwyo heb y seilwaith Teithio Llesol gofynnol ar ei hyd yn 2019. Roedd Cyngor Cymuned Sain Nicolas a Thresimwn yn siomedig ynghylch y penderfyniad i wrthod cais i ddiogelu'r llwybr troed is-safonol a rennir ym mhen y gogledd rhag cerbydau sy'n crwydro oddi ar y briffordd.

Roedd manteision darparu seilwaith Teithio Llesol wedi'i wahanu a'i ddiogelu rhwng Croes Weycock a Chroes Sycamore yn cynnwys galluogi teuluoedd â phlant ifanc i ddewis beicio i Fferm Amelia Trust am ddiwrnod allan o'r Barri, ac o rannau eraill o Fro Morgannwg.

A fydd Bro Morgannwg yn cydymffurfio â'i dyletswyddau o dan y Ddeddf Teithio Llesol ac yn gofyn eto i Lywodraeth Cymru am yr arian sydd ei angen i gwblhau cyswllt Teithio Llesol diogel, cyffyrddus, wedi'i wahanu a'i ddiogelu'n llwyr rhwng Croes Sycamore a Chroes Weycock, sy'n cydymffurfio â Safonau Dylunio Llywodraeth Cymru.

**Ymateb gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Leoedd Cynaliadwy**

Fel y soniwyd yn fy ymateb i'ch cwestiwn diwethaf, bu'r gwaith a wnaed ar hyd y Lôn Pum Milltir yn destun Ymchwiliad Cyhoeddus. Cadarnhawyd yn yr ymchwiliad, er bod

y llwybr yn cynnig seilwaith ar gyfer beiciau, nad oedd yn ofynnol ar y pryd iddo fod yn llwybr Teithio Llesol.

Nid oedd yr A4226 (y Lôn Pum Milltir) na'r lonydd rhwng Dyffryn a Thre-walter wedi'u cynnwys ar Fap Rhwydwaith Integredig Bro Morgannwg 2017. Mae rhan fechan o'r A4226, o Groes Weycock i'r Ganolfan Heboga, wedi'i chynnwys ar y Map Rhwydwaith Teithio Llesol a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2022. Roedd gwaith 2019 ar yr A4226 wedi cynnwys darparu llwybr troed/beiciau cyd-ddefnyddio o Groes Weycock hyd at ychydig ar ôl y Ganolfan Heboga, ac roedd y llwybr hwnnw wedi bodloni archwiliad diweddar, felly ni wneir unrhyw welliannau iddo ar hyn o bryd.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Perry i'r Aelod Cabinet a oedd cyfle wedi'i golli i gyflawni rhagor o welliannau na'r hyn a wnaed, wrth gwblhau'r gwaith yn 2019

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet ei hymateb gwreiddiol i sylw'r Cynghorydd Perry. Roedd y gwaith a gyflawnwyd yn 2019 yn darparu ar gyfer llwybr troed/beiciau cyd-ddefnyddio. Ni chanfuwyd bod angen unrhyw waith pellach mewn archwiliad diweddar a gynhaliwyd. Fel gyrrwr sy'n defnyddio'r ffordd yn rheolaidd, roedd yn amlwg iddi fod y cyhoedd yn defnyddio'r rhan honno o'r llwybr.

(xl) **Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry**

Bob blwyddyn, bydd preswylwyr yn siomedig wrth ganfod bod Hawliau Tramwy Cyhoeddus wedi'u haredig /cynaeafu'n anghyfreithlon. Mae'n ddyletswydd statudol ar yr Awdurdod Priffyrdd i sicrhau bod yr holl hawliau tramwy cyhoeddus bob amser yn rhydd rhag unrhyw rwystr.

Bydd llawer o ffermwyr a thirfeddianwyr yn sicrhau bod y llwybrau troed sy'n croesi eu tir bob amser yn rhydd rhag unrhyw rwystr ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda, a gwerthfawrogir eu hymdrechion yn fawr.

A wnaiff Cyngor y Fro sicrhau yn 2023 fod pob ffermwr yn ymwybodol o statws cyfreithiol llwybrau troed ac yn cymryd camau gorfodi prydlon, lle bo angen, fel y gall pobl fwynhau mynediad i gefn gwlad?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Ymgysylltiad Cymunedol, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddio**

Mae gan y tîm HTC weithdrefnau ar waith i gymryd camau gorfodi yn erbyn unrhyw dramgwydd, ac mae'r tîm yn ymroi'n rhagweithiol nid yn unig i weithredu ar sail adroddiadau a geir ond hefyd yn cadw adroddiadau am achosion blaenorol o dramgwyddo ac yn cynnal ymweliadau dilynol a safleoedd i sicrhau cydymffurfiaeth.

**Atodol**

Dywedodd y Cynghorydd Perry fod y mater yn codi dro ar ôl tro gan nad oedd wedi'i ddatrys, a gofynnodd i'r Aelod Cabinet sut y gellid gwella pethau.

Os oedd ganddo unrhyw dystiolaeth i gefnogi ei honiad, awgrymodd yr Aelod Cabinet y dylai'r Cynghorydd Perry gysylltu â hi ac y byddai wedyn yn codi'r mater gyda'r swyddogion.

(xli) **Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry**

Ym mis Gorffennaf 2021, cyhoeddodd Cyngor y Fro Argyfwng Hinsawdd ac Argyfwng Natur. Yn rhan o benderfyniadau cynllunio a wnaed yn ddiweddar, bydd coedwigoedd bach iawn/bach sy'n cynnig cynefin gwerthfawr i fywyd gwyllt ym Maes y Ffynnon, Tresimwn, ac oddi ar Myrtle Close, Penarth, yn cael eu clirio. Bydd 375 o goed yn cael eu colli ar y safle ym Mhenarth – nid yw'r radd a ddyfernir i goed gan fodau dynolo o bwys i adran na chreaduriaid eraill. Ers i'r gwaith cynhyrchu amaethyddol ddod i ben ar y tir oddi ar Myrtle Close, mae Natur wedi'i hawlio yn ôl.

Rydym yn clirio coed ac isdyfiant gwerthfawr fel pe na bai unrhyw Argyfwng Natur yn bodoli, gan blannu coed a chaniatáu i flodau gwyllt dyfu ar ochr y ffordd er mwyn ceisio dad-wneud y dirywiad mewn bioamrywiaeth yr ydym ni'n gyfrifol amdano. Er gwaethaf y bwriadau da, ceir cyswllt rhwng y briciau gwenyn y mae'r cyngor yn bwriadu eu cynnwys mewn adeiladau newydd, a'r clefydau sy'n lledaenu ymhlith gwenyn.

Ymddengys fod Cyngor y Fro yn rhoi pwyslais aruthrol ar adeiladu cartrefi newydd er mwyn ymdrin â'n problem tai, yn hytrach nag ar wneud defnydd gwell o'r adeiladau sydd gennym yn barod.

Mae angen i wledydd â phroblemau tai difrifol, sy'n llawer mwy na'n problemau ni, i warchod eu hardaloedd annatblygedig, eu coedwig law, eu cynefin i fywyd gwyllt. Dyma rai enghreifftiau o'r prinder tai a geir yn y gwledydd yr ydym yn mynnu bod yn rhaid iddynt roi'r gorau i glirio coedwigoedd glaw:

- Periw - 2m o gartrefi
- Brasil - 7m o gartrefi
- Congo - 4m o gartrefi
- Indonesia - 7.6m o gartrefi
- Colombia - Nid oes gan 3.8 miliwn o deuluoedd, bron i 30% o'r holl deuluoedd yn Colombia, gartrefi digonol (yn ôl amcangyfrifon Gweinidogaeth Tai Colombia o 2013), ac mae 662,146 o deuluoedd, neu 5% o'r boblogaeth, yn ddigartref.

Os yw hi'n gyfnod o argyfwng, oni ddylem roi'r flaenoriaeth i gadw cynefin bywyd gwyllt, hyd yn oed ar draul datblygu tai, a cheisio gwneud defnydd gwell o adeiladau sydd gennym eisoes, a dim od datblygu safleoedd nad ydynt yn cael eu rheoli gan Natur?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Ymgysylltiad Cymunedol, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddio**

Fel y gŵyr y Cynghorydd Perry fel aelod presennol o’r Pwyllgor Cynllunio, mae’r argyfyngau hinsawdd a natur yn ystyriaethau allweddol wrth asesu ceisiadau

cynllunio, a rhaid cydbwyso’r rhain â’r holl ystyriaethau perthnasol eraill, gan gynnwys yr angen am dai.

Yn achos y cais yn Myrtle Close, bydd dros 400 o goed newydd yn cael eu plannu, ac mae ystyriaethau cynllunio pellach wedi'u cynnwys yn gysylltiedig â gwelliannau ecolegol.

(xlii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry**

Bydd adeilad ysgol newydd dadleuol yn cael ei wasgu i hen Faes Pentref Sain Nicolas. Ar flaen y safle hwn ceir perth frodorol a dwy fasarnen fach aeddfed. Bwriad Cyngor y Fro, er gwaethaf Gorchmynion Cadw Coed a gwarchodaeth yr Ardal Cadwraeth, yw cael gwared ar y ddwy goeden a’r berth i ddarparu ardal balmantog i rieni nad ydynt yn cyrraedd mewn car i aros oddi ar y ffordd am eu plant bob prynhawn.

A oes rheswm rhesymol pam na ellir darparu man aros o fewn ffin bresennol yr ysgol, lle bydd rhieni eraill yn aros gyda’u ceir, gan gadw’r ffryntiad gwyrdd presennol o fewn Ardal Gadwraeth Sain Nicolas?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Ymgysylltiad Cymunedol, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddio**

Gwyddai fod y Cynghorydd Perry yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio pan drafodwyd hyn, felly byddai'n llwyr ymwybodol o'r penderfyniad hwn a geisiai daro cydbwysedd rhwng ystyriaethau perthnasol a oedd yn cystadlu â'i gilydd, fel y nodwyd yn y cynigion am yr ysgol newydd a'r adroddiad cysylltiedig a gyflwynwyd gerbron y pwyllgor. Rwy'n hapus bod y cynllun a gyflwynwyd ac a gymeradwywyd yn taro cydbwysedd rhwng yr holl ofynion perthnasol a oedd yn cystadlu â'i gilydd, ac y bydd yn creu adeilad newydd, y mae angen mawr amdano, i'r plant a fydd yn mynd i'r ysgol newydd yn Sain Nicolas. Mewn perthynas â thynnu'r berth, bydd perth aeddfed arall yn cael ei gosod yn ei lle ar hyd blaen safle'r ysgol, gan wynebu lôn yr ysgol, er mwyn sicrhau y cedwir amwynder gweledol yr ardal. Mae coed yn cael eu plannu ym mhob drwy'r holl safle yn lle'r coed sy'n cael eu tynnu. Mae cyfanswm o bedair coeden yn cael eu tynnu ymaith, a bydd 19 o goed newydd yn cael eu plannu ar draws safle'r ysgol, sydd yn llawer mwy na'r gymhareb arferol o 2 i 1 ar gyfer plannu coed newydd yn lle rhai sy'n cael eu colli. Rwy'n fodlon bod y cynllun a gyflwynwyd ac a gymeradwywyd yn taro cydbwysedd rhwng yr holl ofynion perthnasol a oedd yn cystadlu â'i gilydd, ac y bydd yn darparu adeilad newydd y mae angen mawr amdano i'r plant a fydd yn mynd i'r ysgol newydd yn Sain Nicolas ac sy'n mynd i'r ysgol honno ar hyn o bryd.

**Atodol**

Gan gyfeirio at y llwybr troed 20m o hyd, holodd y Cynghorydd Perry pa fudd oedd yn gysylltiedig â hwnnw.

Dywedodd yr Aelod Cabinet fod y llwybr troed a ddarparwyd wedi'i ddarparu i greu lle i rieni ymgynnull i ollwng a chasglu eu plant wrth fynd i mewn ac allan o'r ysgol.

(xliii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry**

Mae trefn y ddolen godi/ollwng a'r ardal barcio a gynigir yn Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas yn gwneud defnydd aneffeithlon o ofod. Awgrymwyd cynllun gwahanol yng ngham yr ymgynghoriad a oedd yn fodd i gadw'r ffryntiad gwyrdd presennol, ac a gynyddai'r gwyrddni o flaen yr ysgol, o fewn yr Ardal Gadwraeth - anwybyddwyd y cynnig. Ac ystyried bod angen inni leihau ein defnydd o ddeunyddiau ac arwynebeddau anhreiddiadwy a lleihau ein hôl troed amgylcheddol, pam na roddwyd y flaenoriaeth i leihau'r ardal balmentog anhreiddiedig i'r ceir?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Ymgysylltiad Cymunedol, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddio**

Hoffwn gyfeirio fy ateb blaenorol i sylw'r Cynghorydd Perry, ac ailbwysleisio, fel Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio pan drafodwyd y mater hwn, y bydd y Cynghorydd Perry yn llwyr ymwybodol bod y penderfyniad hwn, unwaith eto, yn ceisio taro cydbwysedd rhwng ystyriaethau perthnasol a oedd yn cystadlu â'i gilydd, fel y nodwyd yn y cynigion ar gyfer yr ysgol newydd, ac adroddiad cysylltiedig y Pwyllgor Cynllunio. Ni chafodd y cynnig arall ei anwybyddu, a rhoddwyd ymateb cynhwysfawr yn rhan o'r ymgynghoriad cyn ymgeisio. Byddai'r maes parcio a gynigiwyd gan breswylwyr lleol wedi golygu bod llai o fannau parcio i'r staff ar y safle, ac wedi golygu bod angen prynu tir ychwanegol er mwyn creu ardal droi ychwanegol. O ganlyniad i hynny, ni ystyriwyd bod y dyluniad diwygiedig yn ddiwygiad priodol. Mae'n rhaid imi ddweud fy mod yn fodlon bod y cynllun a gyflwynwyd yn taro cydbwysedd rhwng yr holl ofynion a oedd yn cystadlu â'i gilydd, ac yn darparu'r adeilad newydd ar gyfer yr ysgol yn Sain Nicolas.

(xliv) **Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry**

Mae preswylwyr Tresimwn wedi mwynhau Grîn y Pentref y tu ôl i Faes y Ffynnon ers 70 o flynyddoedd. Dyma fan agored cyhoeddus poblogaidd, a gwneir defnydd helaeth ohono. Wrth gysylltu â Chyngor y Fro i holi ynghylch perchnogi Grîn y Pentref, dywedwyd wrth Gyngor Cymuned Sain Nicolas a Thresimwn nad yw Cyngor y Fro yn ymgymryd â Throsglwyddo Asedau Cymunedol, felly ni allai'r Cyngor Cymuned gaffael y tir drwy'r dull hwn. Fodd bynnag, pe na bai angen y tir mwyach, byddai'r Cyngor yn cael gwared arno, a byddai'r Cyngor Cymuned yn gallu ei brynu a'i warchod er budd cenedlaethau'r dyfodol. Cadarnhaodd y Cyngor Cymuned mewn ysgrifen ei fod yn dymuno prynu'r tir gan Gyngor y Fro.

Roedd hi'n destun syndod darllen yn yr Adroddiad Terfynol ar gyfer 8 annedd i lenwi rhan helaeth o'r man glas:

> *Nad yw 'gwneud dim' yn arbennig o ddymunol. Dengys tystiolaeth nad oes angen y tir fel man agored cyhoeddus, a phe bai'n cael ei adael heb ei ddatblygu gallai droi'n ddiolwg dros amser, yn enwedig yr ardal lle roedd y garejys gynt. Ar ben hynny, ni fyddai tir gwag yn cael yr un effaith gadarnhaol o safbwynt cymdeithasol ac economaidd â'r cynnig i ddatblygu.*

Mae'r preswylwyr wedi rhoi tystiolaeth i ddangos bod Grîn y Pentref yn cael ei ddefnyddio ac mae tanddarpariaeth o Fannau Agored Cyhoeddus yn Nhresimwn, na fydd yn cael ei datrys drwy ddatblygu'n barhaus. Nid "tir gwag" yw Grîn y Pentref. Mae Sain Nicolas a Thresimwn yn berchen ar Grin y Pentref yn Sain Nicolas ac yn ei gynnal a'i gadw; ac yn ei gynnal hyd at safon uwch na'r ardaloedd a gynhelir gan Gyngor y Fro.

Rhoddwyd rheswm da dros wrthod datblygu Grîn y Pentref pan wrthodwyd y cais cynllunio yn 2021 - mae'r datblygiad yn anghymdogol.

A hoffai Cyngor y Fro ymddiheuro wrth Gyngor Cymuned Sain Nicolas a Thresimwn am awgrymu, pe bai'r Cyngor Cymuned yn berchen ar Grîn y Pentref yn Nhresimwn, ac yn ei reoli, y *"gallai fynd yn ddiolwg dros amser"*?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Ymgysylltiad Cymunedol, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddio**

Hoffwn ddechrau drwy ddweud nad oes gan Gyngor Bro Morgannwg ddim i ymddiheuro yn ei gylch, yn enwedig o ran darparu tai fforddiadwy y ceir taer angen amdanynt yn ein pentrefi gwledig.  Yn ogystal â hynny, fel y mae'r Cynghorydd Perry yn gwybod yn iawn, methwyd â dangos mai grin pentref oedd y tir dan sylw ar ôl yr ymchwiliad cyhoeddus perthnasol, ac nid oedd hynny felly'n berthnasol wrth ystyried y cais cynllunio hwn.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Perry a allai'r Aelod Cabinet ddod i gyfarfod y Cyngor Cymuned er mwyn esbonio pam ei bod o'r farn honno.

Roedd yr Aelod Cabinet yn hapus i dderbyn unrhyw wahoddiad yr hoffai'r Cynghorydd Perry ei anfon ati oddi wrth y Cyngor Cymuned.

(xlv) **Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry**

Mae coed ar draws Ewrop a gogledd America wedi ddioddef yng ngwres a sychder yr hafau diweddar. Mae Rwsia yn darparu 20% o bren y byd. Mae coedwigoedd pren sylweddol Wcráin wedi cael eu difrodi gan danau gwyllt afreolus, rhai wedi'u hachosi gan y rhyfel ei hun, a bydd angen llawer iawn o bren i ailadeiladu Wcráin ar ôl i ymosodiadau Putin ddod i ben.

Mae angen inni rannu adnoddau prin ein planed yn deg.

A wnaiff Cyngor y Fro geisio lleihau ei ddefnydd o bren, gan blannu perthi efallai yn lle codi ffensys pren.

**Ymateb gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Leoedd Cynaliadwy**

Bydd y Cyngor bob amser yn ymdrechu i ddefnyddio'r deunyddiau mwyaf priodol wrth adeiladu a gosod ffensys neu greu ffiniau o amgylch ei eiddo ei hun.  Gallai wneud

hyn naill ai drwy ddefnyddio pren o ffynhonnell gynaliadwy (wedi'i ardystio gan yr FSC) neu drwy ddefnyddio perthi neu ddeunyddiau eraill addas.

(xlvi) **Cwestiwn gan y Cynghorydd C.E.A. Champion**

A allai'r Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am hynny roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y Cynllun Datblygu Lleol arfaethedig mewn perthynas â'r Fframwaith Canol Tref ac ymgysylltu â chymunedau?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Ymgysylltiad Cymunedol, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddio**

Ym mis Mai 2022, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru Gytundeb Cyflawni sy'n cynnwys amserlen Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLl) 2021 i 2036 a Chynllun Cynnwys Cymunedau (CCC).

Mae'r CCC yn esbonio sut a phryd y bydd rhanddeiliaid a chymunedau amrywiol yn cymryd rhan ym mhroses y CDLl Newydd. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn y cam Cyn Adneuo a bydd y Strategaeth a Ffafrir yn cael ei chyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ym mis Ebrill/Mai 2023. Yn ogystal â hynny, yn rhan o'r adolygiad, mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn ceisio penodi ymgynghorwyr i gynnal astudiaeth o gapasiti manwerthu a fydd yn sail ar gyfer y CDLlN a ddaw i'r amlwg maes o law.

Paratowyd y Fframwaith Canol Trefi (FfCT) gan ymgynghorwyr ac fe'i mabwysiadwyd gan y Cyngor yn 2014 (gweler cofnod rhif C2221). Nod y FfCT oedd llywio dyfodol y pedwar canol tref ym Mro Morgannwg. Mae'r fframwaith hwn bellach wedi dod i ben i raddau helaeth a bydd yn cael ei ddisodli gan y gwaith i baratoi Cynllun Lle'r Barri. Rydym i fod i gynnal ein hymgyngoriadau â'r gymuned ar y Cynllun hwnnw yn y flwyddyn newydd. Bwriad y Cyngor yw y bydd Cynlluniau Seiliedig ar Leoedd yn cael eu datblygu ar gyfer holl ganol trefi'r Fro maes o law ac yr ymgysylltir yn uniongyrchol â chymunedau wrth ddatblygu'r cynlluniau hyn.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Champion a oedd swyddogion yn ymwybodol bod y Ffederasiwn Busnesau Bach wedi llunio gweledigaeth ar gyfer trefi Cymru yn gynharach ym mis Mawrth.

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet ei bod yn ymwybodol o hyn, a'i bod yn hyderus bod y swyddogion perthnasol hwythau'n ymwybodol.

513 CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD –

Cyflwynwyd y cwestiynau canlynol ac atebwyd nhw fel y dangosir, yn unol â'r protocol y cytunwyd arno gan y Cyngor ar 5 Mai, 2010.

(i) **Cwestiwn gan Mr. L. Mack**

Mae cannoedd o bobl o fewn Bro Morgannwg yn gwasanaethu fel llywodraethwyr ysgol a chyda'i gilydd yn teithio miloedd o filltiroedd mewn car yn flynyddol i fynychu cyfarfodydd eu bwrdd llywodraethu ac amrywiol is-bwyllgorau.  Gan gyfeirio at ddatganiad blaenorol y Cyngor ynghylch yr argyfyngau Hinsawdd a natur, a'r Cynllun Her Prosiect Sero, a allai'r Cyngor esbonio'r camau y bydd yn eu cymryd i annog byrddau llywodraethu ysgol i leihau cyfanswm eu hallyriadau $C0_2$ yn ogystal â llygredd o bibellau gwacáu car a gronynnau teiar drwy gynnal cynifer o'r cyfarfodydd hyn ag sy'n bosibl ar-lein.

**Ymateb gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Leoedd Cynaliadwy**

Diolch ichi am eich cwestiwn.

Mae ysgolion newydd sy’n rhan o’r rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yn cael eu cefnogi gan Gynlluniau Teithio i hyrwyddo teithio llesol i ysgolion ymhlith disgyblion, rhieni a staff, gan gynnwys llywodraethwyr.  Mae Cynllun Teithio yn hyrwyddo dulliau teithio eraill cynaliadwy, lle nad oes modd teithio'n llesol, fel trafnidiaeth gyhoeddus sydd ar gael.  Mae Cynllun Teithio hefyd yn hyrwyddo rhannu ceir er mwyn lleihau nifer y cerbydau preifat a ddefnyddir.  Anogir ysgolion presennol i fabwysiadu Cynllun Teithio i'r Ysgol mewn cydweithrediad â Swyddog Teithio Llesol y Cyngor i hyrwyddo teithio llesol ym Mro Morgannwg a lleihau'r defnydd o geir preifat.

Mae gan bob ysgol ym Mro Morgannwg fynediad at gyfleusterau TG y gellir eu defnyddio i gynnal cyfarfodydd llywodraethwyr ar-lein.  Fodd bynnag, mater i Gyrff Llywodraethu unigol yw penderfynu sut maent yn dymuno cynnal eu cyfarfodydd.  Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn hyrwyddo'r defnydd o gyfarfodydd ar-lein lle bo'n briodol i leihau'r angen i deithio mewn ceir preifat.

Ac ystyried perthnasedd eich cwestiwn i’r agenda ehangach ar y newid hinsawdd, mae’n werth cyfeirio hefyd at y ffaith bod pob ysgol ym Mro Morgannwg wedi cael gwybodaeth bwrpasol a lleol am sut i leihau’r defnydd o ynni, a mecanweithiau er mwyn helpu i newid ymddygiad i wella'r defnydd o ynni mewn amgylcheddau ysgol.  Ar ben hynny, mae'r Cyngor yn hyrwyddo plannu coed ychwanegol ar safleoedd ysgol ynghyd â chreu ardaloedd o gynefin bioamrywiol drwy blannu blodau gwyllt, ac mae'r naill a'r llall yn cyfrannu at greu ardaloedd dal carbon ar safleoedd ysgol.  Mae ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy bellach wedi'u datblygu i'r fod yn ddigarbon net o ran y safon weithredu, ac mae'r Cyngor yn gweithio tuag at fodel digarbon net oes gyfan.  Mae hyn yn cynnwys cynlluniau helaeth i blannu coed newydd yn rhan o ddatblygiadau ysgol newydd.  Mae hyn oll yn cyfrannu at fynd i’r afael â’r argyfwng hinsawdd ym Mro Morgannwg.